Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru

Hydref 2009

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gellir cael rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn, neu gopïau mewn fformat arall gan:

Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc
Gwasanaeth y Pwyllgorau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8149
e-bost: Linda.heard@wales.gsi.gov.uk

Mae fersiwn electronig o'r adroddiad hwn ar gael ar wefan y Pwyllgor:
www.cynulliadcymru.org

Gwasanaeth y Pwyllgorau
Tom Jackson – Clerc y Pwyllgor
Rita Phillips – Dirprwy Glerc y Pwyllgor
Linda Heard – Swyddog Cymorth y Pwyllgor

Gwasanaeth Ymchwil yr Aelodau
Anne Thomas – Arbenigwr y Pwyllgor
Sian Thomas – Arbenigwr y Pwyllgor

Gwasanaethau Cyfreithiol
Helen Roberts – Cyngorydd Cyfreithiol

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

Cyllidebu ar gyfer plant yng Nghymru

Hydref 2009

CYNNWYS	**TUDALEN**
AELODAU'R PWYLLGOR	3
RHAGAIR Y CADEIRYDD	4
CYFLWYNIAD	5
CEFNDIR: DATBLYGIAD CYLLIDEBU AR GYFER PLANT YNG NGHYMRU	8
Y PRIF YSTYRIAETHAU	11
CYLCH GORCHWYL YR YMCHWILIAD	12
MANTEISION CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT (MEWN EGWYDDOR)	13
HERIAU YMARFEROL O RAN CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT	21
CAMAU YMARFEROL O RAN CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT	29
CYLLIDEBU CYFRANOGOL	41
ATODIAD 1: CRYNODEB O'R ARGYMHELLION	47
ATODIAD 2: CYLCH GORCHWYL A THREFN GYFLWYNO TYSTIOLAETH	49

Aelodau'r Pwyllgor

Helen Mary Jones
Cadeirydd
Llanelli
Plaid Cymru

Angela Burns
Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro
Plaid Geidwadol Cymru

Christine Chapman
Cwm Cynon
Y Blaid Lafur

Lynne Neagle
Tor-faen
Y Blaid Lafur

Eleanor Burnham
Gogledd Cymru
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru

RHAGAIR Y CADEIRYDD

Ychydig iawn o addewidion, rhaglenni neu bolisïau y mae'n bosibl i unrhyw lywodraeth eu cyflawni heb arian i'w cefnogi. Nid oes pwynt nodi bwriadau da a rhoi sicrhad y bydd addewidion yn cael eu gwireddu heb arian i dalu amdanynt.

Yn anffodus, mae'r modd y caiff cyllidebau eu llunio yng Nghymru, ac mewn llawer o wledydd eraill, yn ei gwneud yn anodd iawn i benderfynu os bydd hyn yn digwydd a pha bryd y bydd yn digwydd.

Dyma'r cefndir i Gyllidebu ar gyfer Plant. Rhaid edrych ar yr adnoddau a ddyrennir gan lywodraeth genedlaethol a llywodraeth leol ar gyfer polisïau a gwasanaethau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, asesu'r effaith a gânt, ac edrych a yw'r adnoddau'n adlewyrchu'n deg anghenion plant a phobl ifanc. Mae'n glod i Gymru mai hi yw'r unig wlad yn y Deyrnas Unedig y mae ei Llywodraeth wedi dechrau ar waith yn y maes hwn. Fodd bynnag, dim ond dechrau ar y gwaith hwn y mae Llywodraeth Cymru.

Wrth alw am fwy o dryloywder o ran pennu cyllidebau mewn meysydd sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc, cymerwn nad oes unrhyw beth i'w guddio o ran prosesau gwneud penderfyniadau yng Nghymru. Rydym hefyd yn ymwybodol iawn y bydd dadansoddi sut y mae Cymru'n gwario'i harian, ac a yw'n gwneud hynny'n effeithiol, yn arwain at gostau, ond credwn eu bod yn gostau y gellir eu lleihau gyda chynllunio synhwyrol a phrosesau llawn dychymyg. .

Rydym yn argyhoeddedig, fodd bynnag, fod angen i arian gael ei wario'n strategol ar hybu hawliau a lles plant a phobl ifanc yng Nghymru, bod angen i ni wybod beth yw amcanion hirdymor gwariant o'r fath, a bod yn rhaid i ni gael trafodaethau deallus ynghylch a yw'r gwariant yn ddigonol ar gyfer y dasg dan sylw. Credwn y bydd gwella dealltwriaeth y cyhoedd o benderfyniadau cyllidebol yng Nghymru, a'u heffaith, yn arwain yn y pen draw at well penderfyniadau. Yn wir, sicrhau bod y cyhoedd yn gallu gweld dadansoddiadau cyllidebol, trwy ddweud 'roedd gennym £X miliwn, dyma sut y gwariwyd ef, dyma'r gobaith ar gyfer yr arian, a dyma beth a ddigwyddodd,' credwn y gall llywodraethau effeithiol ennill hyder ac ymddiriedaeth y cyhoedd.

Mae'n bosibl bod Llywodraeth yn meddu ar y polisi gorau yn y byd, ond os na wyddwn i ble y mae'r adnoddau'n mynd yn y pen draw, ni fedrwn olrhain lle y gwnaed y buddsoddiad na'i werthfawrogi. Yn y pen draw, er mwyn i lywodraethau ddangos beth yw eu gwir flaenoriaethau, mae angen i ni sicrhau ein bod yn gallu dilyn hynt yr arian.

Helen Mary Jones AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc

CYFLWYNIAD

"Diwedd y gân yw'r geiniog" [1]

Ym mis Ionawr 2009, cyhoeddwyd ein bod am gynnal ymchwiliad manwl i Gyllidebu ar gyfer Plant yng Nghymru.

Beth yw Cyllidebu ar gyfer Plant?

Wrth drafod cyllidebu ar gyfer hawliau plant yn y ddogfen 'First introduction to Working for Child Rights, from a budget perspective,' dywed elusen Achub y Plant yn Sweden:

> "[It] emerged out of collaboration between child rights advocates, researchers and economists with an interest in children and their rights… child rights budget work has become a powerful means to monitor governments' commitment to children."[2]

Credwn mai canolbwynt Cyllidebu ar gyfer Plant yw edrych ar faint o arian sy'n cael ei wario gan y llywodraeth i helpu plant a phobl ifanc, a pha mor effeithiol y mae'r arian hwnnw'n cael ei wario. .

Mae'n ymwneud ag archwilio'r adnoddau y mae llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol yn eu dyrannu i bolisïau, rhaglenni a gwasanaethau sy'n rhoi budd i blant a phobl ifanc, a gofyn a yw'r rhain yn adlewyrchu'n deg anghenion plant a phobl ifanc.

Mae'n ymwneud ag asesu a yw hawliau plant yn cael eu hwyluso'n effeithiol gan benderfyniadau cyllidebol llywodraeth.

Mae'n ymwneud ag edrych a yw'r addewidion o ran polisi a wneir gan lywodraethau yn cael y gefnogaeth ariannol i'w gwireddu.

Pam oeddem am edrych ar Gyllidebu ar gyfer Plant?

Cylch gwaith y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc yw "ystyried materion sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc yng Nghymru a chyflwyno adroddiad arnynt". Caiff y Pwyllgor, yn benodol, o fewn ei gylch gwaith, archwilio **gwariant**, gweinyddiaeth a pholisi Llywodraeth Cynulliad Cymru a chyrff cyhoeddus cysylltiedig ac mae'n ystyried adroddiadau Comisiynydd Plant Cymru.

Fodd bynnag, rydym wedi bod yn bryderus ers peth amser fod y modd y mae cyllidebau'n cael eu llunio yng Nghymru yn ei gwneud yn anodd i ni archwilio'n effeithiol i wariant Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc. Er enghraifft, yn ein hadroddiad i'r Pwyllgor Cyllid ym mis Hydref 2008, ar gynigion cyllideb ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2009-10, nodwyd:

[1] Dihareb Gymraeg enwog.
[2] Achub y Plant Sweden, First introduction to Working for Child Rights from a budget perspective,' cyhoeddwyd gan Sida (Swedish International Development Cooperation Agency), tud 6.

> "A lack of clarity and transparency about the draft budget spend on children and young people."[3]

Yn yr un modd yn ein hadroddiad ym mis Mai 2009, "Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith" argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru:

> "Nodi cyfanswm y gwariant ar gymorth rhianta a sicrhau bod mwy o dryloywder ac eglurdeb o ran gwariant ym mhob adran yn genedlaethol ac yn lleol. Dylai hyn fod yn rhan o'r gyllideb flynyddol a'r broses o ddyrannu arian."[4]

Clywsom bryderon hefyd gan randdeiliaid allweddol nad oedd hawliau plant yn cael blaenoriaeth mewn penderfyniadau cyllidebol. Ym mis Tachwedd 2007, dywedodd Plant yng Nghymru:

> "[We are] very worried at the moment about how children will be prioritised in many departments. Within the Assembly, we have seen capacity issues within the children's division. At local authority level, there are not many people with a passion for children's issues in senior positions any more. So, I think that the way that local agencies spend money on children is important."[5]

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, fodd bynnag, ei bod yn datblygu gwaith ar Gyllidebu ar gyfer Plant. Er enghraifft, ym mis Hydref 2008, pan ofynnwyd mewn pwyllgor ynglŷn â chyllidebu ar gyfer plant a gwariant cyffredinol ar blant, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wrthym:

> "Papers will shortly be in the public domain showing our analysis that, overall, 28 per cent of the Assembly Government's expenditure in 2006-07 was allocated to children. That cuts across all the budgets that I mentioned, but particularly mine, social justice, and health and social services. The social justice budget is important because a lot of money goes out to local government, and it would be good if we could create a framework for children's budgeting that would encourage our partners to take it up at the local authority level."[6]

O gofio bod y gwaith hwn yn cael ei wneud gan Lywodraeth Cymru, ystyriwyd y byddai'n briodol ein bod yn cynnal ymchwiliad er mwyn craffu ar yr ymdrech honno'n fwy manwl.

---

[3] Y Pwyllgor Cyllid, adroddiadau gan Bwyllgorau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am gyllideb ddrafft Llywodraeth Cynulliad Cymru, http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-fin-home/bus-committees-third-fin-agendas/fin_3__15-08__p2__reports_from_other_committees.pdf?langoption=3&ttl=FIN%283%29-15-08%20%3A%20Paper%202%20%3A%20reports%20from%20other%20Committees%20%28pdf%2C%20179kb%29, t. 6

[4] Y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, Rhianta yng Nghymru a rhoi'r Cynllun Gweithredu Rhianta ar waith, http://www.assemblywales.org/bus-home/bus-guide-docs-pub/bus-business-documents/bus-business-documents-doc-laid/cr-ld7514-e.pdf?langoption=3&ttl=CR-LD7514%20-%20Parenting%20in%20Wales%20and%20the%20delivery%20of%20the%20Parenting%20Action%20Plan, tud 37.

[5] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 15.11.07, p.5-6

[6] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 14.10.08, p.9

Roeddem yn falch felly, ar ddechrau'r ymchwiliad hwn, bod Llywodraeth Cymru wedi darparu papur i ni yn nodi ei methodoleg wrth ddatblygu dadansoddiadau cyllidebu ar gyfer plant, ac ar 10 Mawrth 2009 cyhoeddodd erthygl ystadegol a oedd yn ceisio nodi canran pob llinell gyllidebol y credwyd oedd wedi'u neilltuo ar gyfer plant.

Cydnabu'r Gweinidog hefyd mewn tystiolaeth lafar:

> "It is early days in terms of the work that we have done so far,"[7]

Dywedodd hefyd y bydd ymchwiliad y Pwyllgor o gymorth i arwain y gwaith.[8]

[7] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09, p.5
[8] Ibid., p.5.

CEFNDIR: DATBLYGIAD CYLLIDEBU AR GYFER PLANT YNG NGHYMRU

Yn 2002, er mwyn sicrhau cydymffurfio ag Erthygl 4 Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, argymhellodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn y dylid cynnal dadansoddiad o gyllideb i:

- ddangos y gwariant ar blant,
- nodi blaenoriaethau a
- dyrannu adnoddau er mwyn gwneud y gorau ohonynt.

Ar ôl hynny, comisiynodd Achub y Plant adolygiad, a gyhoeddwyd yn 2003, o wariant cyhoeddus ar blant yng Nghymru.[9] Nod yr adolygiad oedd nodi tueddiadau yng ngwariant llywodraeth y Deyrnas Unedig ar blant a phobl ifanc, ac asesu i ba raddau roedd penderfyniadau polisi gan Lywodraeth Cymru o ran plant yn cael cefnogaeth ariannol i ddarparu gwasanaethau gwell ac i fynd i'r afael â'r rhwystrau sy'n wynebu'r plant sydd ar 'y cyrion' yng Nghymru.[10]

Dangosodd yr adolygiad y bu cynnydd yn y gwariant ar blant yn y cyfnod 1996-97 i 2000-01. Yn ogystal â chynnydd yn y gwariant ar addysg dros y cyfnod, roedd cynnydd hefyd yn y gyfran o gyllideb y gwasanaethau cymdeithasol a gafodd ei gwario ar blant yng Nghymru.

Deilliodd mwy o gwestiynau o'r astudiaeth fodd bynnag. Dangosodd amrywiadau sylweddol yn y lefelau gwariant rhwng awdurdodau lleol ac awdurdodau iechyd ac mae'n ymddangos nad ffactorau demograffig a ffactorau cymdeithasol-economaidd sy'n gyfrifol amdanynt i gyd.

Roedd hefyd yn tanlinellu'r anawsterau o ran cael gafael ar wybodaeth am wariant cyhoeddus ar blant a phobl ifanc, yn arbennig ar wasanaethau nad oeddent yn benodol ar gyfer plant a'r anawsterau o ran penderfynu faint sy'n cael ei wario ar blant.

Dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym, yn dilyn yr adroddiad hwn:

> "In 2006, the then Cabinet Sub-Committee on Children and Young People commissioned work to identify the proportion of the Assembly Government budget spent on children. That commission was in response to a requirement to understand the resources that are spent on children, in order to inform policy development and to comply with a responsibility under the United Nations Convention on the Rights of

[9] Tom Sefton, (2003) Achub y Plant Cymru, *A Child's Portion: Public Spending on Children in Wales* p.5.
[10] Achub y Plant Cymru (2004): Where's the money going? Monitoring government and donor budgets

> the Child to report on the amount and percentage of national budgets spent on children."[11]

Wedi hynny, fel y soniodd elusen Achub y Plant wrth gyflwyno adroddiad:

> "To the UN Committee in 2007, the Welsh Assembly Government included a crude analysis of the proportion of its budget spent on children (the only nation in the UK to do so) and reported that it planned to do further work to enable a more sophisticated analysis to come forward."[12]

Yn 2008, dywedodd pedwar Comisiynydd Plant y Deyrnas Unedig wrth Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig nad oedd dyrannu adnoddau yn y DU yn ddibynnol ar angen a aseswyd, nad oedd yn dryloyw, a'i fod yn aml o natur tymor byr ac nad oedd ei effaith ar ganlyniadau ar gyfer plant yn cael ei werthuso bob tro.[13]

Yna cyflwynodd Pwyllgor y Cenhedloedd Unedig adroddiad ar weinyddiaeth y DU a gweinyddiaethau datganoledig ar 3 Hydref 2008, yn nodi eu bod yn cydnabod yn ddiolchgar y cynnydd mewn gwariant ar blant yn y blynyddoedd diweddar, ond:

> "Nevertheless, the Committee is concerned that the increases are not sufficient to eradicate poverty and tackle inequalities and that the lack of consistent budgetary analysis and child rights impact assessment makes it difficult to identify how much expenditure is allocated to children across the State party and whether this serves to effectively implement policies and legislation affecting them."[14]

Wedi lansio'r ymchwiliad hwn, ar 10 Mawrth 2009 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru erthygl oedd yn cynnwys ystadegau oedd yn ceisio nodi'r canran o bob un o'i Llinellau Gwariant yn y Gyllideb ac a oedd, yn ei barn hi, wedi'u dyrannu ar gyfer plant. Yn galonogol, nododd yr erthygl bod 28% o'i wariant yn 2006-07 wedi'i wario ar blant a phobl ifanc, yn amcangyfrif bod 28% wedi'i wario yn 2007-08 hefyd, ac roedd yn amcangyfrif y byddai 28% yn cael ei wario yn 2008-09, a 2009-10. Roedd hyn yn cymharu â'r amcangyfrif bod 21.6% o'r boblogaeth yn blant a phobl ifanc. Cydnabu Llywodraeth Cymru, fodd bynnag, bod rhannau o'r erthygl hon – lle nad oedd ystadegau ar ddefnyddwyr llinellau gwariant penodol yn y gyllideb ar gael – wedi'u seilio

---

[11] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyllidebu ar gyfer Plant, http://www.cynulliadcymru.org/cyp_3__child_budgeting_submission_from_welsh_assembly_government__e-2.pdf, p. 1.

[12] Achub y Plant, 'Children's Budgeting:' Briff ar gyfer y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, http://www.cynulliadcymru.org/bus-home/bus-committees/bus-committees-third1/bus-committees-third-cyp-home/bus-committees-third-cyp-agendas/cyp_3_-03-09__p1__save_the_children.pdf?langoption=3&ttl=CYP%283%29-03-09%20%3A%20Paper%201%20%3A%20Children%27s%20Budgeting%20%3A%20submission%20from%20Save%20the%20Children%20%20%28pdf%2062%2C2kb%29, p. 2.

[13] Comisiynydd Plant y DU, Adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn, Mehefin 2008

[14] CRC/C/GBR/CO/4, Y Pwyllgor ar Hawliau'r Plentyn, Sesiwn 49, 3 Hydref 2008 Concluding Observations United Kingdom of Great Britain and Northern Ireland

yn unig ar ddadansoddiad o'r boblogaeth i ganfod faint o'r llinellau gwariant penodol yn y gyllideb sydd i'w priodoli i blant.[15]

Cydnabu Llywodraeth Cymru wrthym hefyd bod hyn yn anorfod yn golygu bod rhannau sylweddol o'r erthygl hon yn anghywir, ond gwnaethpwyd y sylw:

> "The reason we publish it is so that we can be open and transparent to gain that sort of feedback and to engage in those sorts of discussion."[16]

O ganlyniad, er ein bod yn croesawu ymrwymiad Llywodraeth Cymru i Gyllidebu ar gyfer Plant, rydym hefyd yn awyddus iawn i'w chynorthwyo i sicrhau bod ei gwaith o ran Cyllidebu ar gyfer Plant yn gweithio'n fwy cywir ac effeithiol.

[15] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gyllidebu ar gyfer Plant http://www.assemblywales.org/cyp_3__child_budgeting_submission_from_welsh_assembly_government__e-2.pdf, p. 3.
[16] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.8.

Y PRIF YSTYRIAETHAU

Wedi clywed tystiolaeth a chwblhau ein hymchwiliad, mae'n bosibl i ni bellach gyflwyno cyfres o gasgliadau ac argymhellion i Lywodraeth Cymru ac i bobl berthnasol eraill, sy'n seiliedig ar dystiolaeth. Mae crynodeb o'n hargymhellion i'w gweld yn Atodiad 1.

Yn ystod ei hymchwiliad, clywsom dystiolaeth gan amrywiaeth eang o dystion, yn cynnwys: y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, llywodraeth leol, arbenigwyr academaidd a sefydliadau sy'n gweithio'n agos â phobl ifanc a phlant a phobl ifanc eu hunain. Clywsom dystiolaeth yn bennaf gan dystion o Gymru, ond clywsom dystiolaeth hefyd gan dystion sy'n byw yn Lloegr a De Affrica.

Cawsom hefyd 18 ymateb i'n galwad am dystiolaeth ysgrifenedig, a welir yn Atodiad 2. Mae rhestr o'r pum cyfarfod Pwyllgor lle y cafwyd tystiolaeth lafar hefyd wedi'i nodi yn Atodiad 2.

Roedd ein tystion yn cytuno'n gyffredinol ar fanteision posibl dadansoddi gwariant cyhoeddus ar blant a phobl ifanc mewn egwyddor. Er enghraifft, argymhellodd yr elusen Achub y Plant:

> "[The] establishment of a children's budget - a document that sets out what is spent on children at both the national and local government level, as recommended by the UN committee."[17]

Awgrymodd Achub y Plant hefyd y gallai gwaith o'r fath sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ym maes gwariant cyhoeddus ar blant. [18] Roedd tystion eraill o'r farn ei bod yn bosibl i gyllidebau ar gyfer plant sicrhau gwell cyfleoedd i'r cyhoedd gymryd rhan, ynghyd â datblygu polisi deallus. Maent oll yn agweddau cadarnhaol ar lywodraethu da.

Fodd bynnag, clywsom syniadau a safbwyntiau gwahanol gan dystion am yr heriau ymarferol sy'n gysylltiedig â chynnal dadansoddiadau o'r fath, pryderon a oedd manteision Cyllidebau o'r fath yn cyfiawnhau eu costau posibl, a'r syniadau gwahanol ynglŷn â sut roedd yn bosibl i ddadansoddiadau o'r fath gael eu llunio. Rydym, felly, wedi rhannu'r adroddiad hwn yn bedair thema:

- Manteision Cyllidebu effeithiol ar gyfer Plant, mewn egwyddor
- Heriau ymarferol ar gyfer Cyllidebu effeithiol ar gyfer Plant
- Camau ymarferol ar gyfer Cyllidebu effeithiol ar gyfer Plant
- Cyllidebu Cyfranogol

[17] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 10.02.09, p.12
[18] Achub y Plant ., papur briffio, t.2

CYLCH GORCHWYL YR YMCHWILIAD

Cytunodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad hwn:

1. Archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer dyrannu a monitro gwariant cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn genedlaethol ac yn lleol.

2. Nodi gwariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc.

MANTEISION CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT (MEWN EGWYDDOR)

Gwella Tryloywder ac Atebolrwydd ar lefel genedlaethol

"Those who have a responsibility to provide have a duty to ensure that the best interests of children and young people are considered, and civil society has to be able to hold those people to account."[19]

*- **Anne Crowley**, Achub y Plant*

Cytunodd y tystion ei bod yn bosibl i Ddatganiadau Cyllidebu effeithiol ar gyfer Plant wella tryloywder prosesau cyllidebol yng Nghymru gan alluogi'r cyhoedd, yn arbennig plant a phobl ifanc, i gael llawer gwell syniad o beth yn wir oedd yn cael y flaenoriaeth gan y llywodraeth yn ei phenderfyniadau ar y gyllideb.

Gwnaeth Achub y Plant, er enghraifft, y sylw y gallai Datganiadau Cyllidebu ar gyfer plant sicrhau tryloywder ac atebolrwydd ym maes gwariant cyhoeddus ar blant.[20]

Yn yr un modd, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen ei bod yn bosibl, ar lefel llywodraeth genedlaethol, i gyllidebau ar gyfer plant alluogi'r cyhoedd i asesu ffocws ariannol Cymru ar blant o gymharu â gwledydd eraill yn Ewrop a thu hwnt. [21]

Roedd cytundeb cyffredinol hefyd ymhlith tystion nad yw cyllidebau ar lefel genedlaethol yng Nghymru yn dryloyw ar hyn o bryd, ac felly bod llawer o le i wella, trwy Ddatganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant. Er enghraifft, roedd tystiolaeth ysgrifenedig Plant Anabl yn Cyfri yn dyfynnu sylwadau person ifanc bod:

> "Those who have been involved in giving evidence to various WAG committees in recent years will be thinking where is the investment to back the promises made."[22]

Awgrymodd llawer o ymatebwyr, fodd bynnag, fod cyllidebau cenedlaethol Cymru o leiaf ychydig yn fwy tryloyw na rhai gwledydd eraill yn y DU. Er enghraifft, nododd Comisiynydd Plant Cymru rywfaint o gynnydd yn hyn o beth ac yn ei ymateb cyfeiriodd at adroddiad i Bwyllgor y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a soniai am ymdrechion yng Nghymru:

> "[To] ensure that budgetary spend on children is more clearly identified and more transparent at a national level than in England."[23]

[19] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.9.
[20] Achub y Plant, papur briffio, p.2.
[21] Cyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen, Ymchwiliad i Gyllidebu ar gyfer Plant: Ymateb gan Torfaen, p.2.
[22] Tystiolaeth ysgrifenedig, Plant Anabl yn Cyfri, p.1
[23] Comisiynydd Plant Cymru, Ymateb ysgrifenedig ar ran Comisiynydd Plant Cymru, p.2.

Serch hynny, roedd y mwyafrif o'r tystion yn cytuno â sylwadau Achub y Plant, a ddywedodd "while there has been some progress in Wales, it has been slow."[24]

Gwella tryloywder ac atebolrwydd ar lefel leol

Hefyd, roedd mwyafrif y tystion o'r farn bod llai o dryloywder mewn cyllidebau awdurdodau lleol nag ar lefel genedlaethol, yn arbennig oherwydd eu bod heb eu neilltuo.[25] Er enghraifft, yn ei ymateb ysgrifenedig i'n galwad am dystiolaeth, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "The picture in relation to children's budgeting is less clear at a local authority level. Any increase of funding is widely publicised but any withdrawal of funding often receives very little publicity."[26]

Yn yr un modd, dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant:

> "Whilst it is relatively easy to research Welsh Assembly Government funding for the third sector (i.e. the Children and Families Organisation Grant (CFOG)), local authority funding for the third sector tends to be less transparent. When the Welsh Assembly Government provides additional money to local authorities it is often impossible to find out how each local authority has allocated and spent this additional money."[27]

Yn wir, roedd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yn bryderus ynghylch y broses ehangach o wneud penderfyniadau cyllidebol ar lefel llywodraeth leol, gan ddweud:

> "Many of the decisions that take place appear to be based on historical formulas which have not been updated for many years."[28]

Tynnodd nifer o dystion sylw, serch hynny, at enghreifftiau o arfer da o ran hwyluso tryloywder mewn cyllidebau llywodraeth leol. Canmolodd Estyn adolygiad awdurdod lleol Conwy o'u rhaglen Cymorth, er enghraifft, a nododd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru fod trefniadau ar waith i ddiweddaru Adran 52 (y ffurflen a gaiff ei chwblhau gan awdurdodau lleol a'r modd y dyrennir cyllid i ysgolion a gwasanaethau addysg).[29] Roedd CLlLC o'r farn y byddai gan Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc rôl gynyddol bwysig mewn pennu blaenoriaethau cyllidebau awdurdodau lleol, a dadleuodd:

---

[24] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.4.
[25] Ei ystyr yw 'wedi'i neilltuo ar gyfer defnydd penodol'. Er enghraifft, gellir darparu grantiau o lywodraeth ganolog i lywodraeth leol ar gyfer dibenion penodol, ac mae rhoi'r arian yn ddibynnol ar dystiolaeth fod yr arian yn cael ei wario mewn ffordd arbennig.
[26] Comisiynydd Plant Cymru, er for Wales, Written response on behalf of Children's Commissioner for Wales, p.2.
[27] Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, Tystiolaeth Ysgrifenedig, p.1.
[28] Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Tystiolaeth Ysgrifenedig p.1.
[29] CLlLC. Tystiolaeth Ysgrifenedig, p.3.

> "It is often difficult to demonstrate the degree to which children and young people are taken into account at a local level in policy areas that are not directly relevant to them… authorities do routinely consider the effect that planning permission for a large housing estate would have on the community in general and on educational provision in particular. Some authorities have taken this further through, for example, drafting supplementary planning guidance for planning obligations to include obligations towards meeting children's needs."[30]

Yn wir, rhoddodd Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar (RNID) glod i'r Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc am gynnwys cynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol mewn grwpiau craidd, yn rhannol i wella tryloywder penderfyniadau a wnaed gan y Partneriaethau hyn. Nodwyd ganddynt, fodd bynnag:

> "Often information is not disseminated from the voluntary sector representative back to those they are representing, so organisations are not aware of what is happening in core groups and in other groups such as the Partnership Board, Joint Commissioning Group etc."[31]

Serch hynny, cydnabu CLILC bod lle i wella o ran gwella tryloywder cyllidebu mewn llywodraeth leol, a daeth i'r casgliad:

> "Different authorities go into different levels of detail on the services that they provide… we are not exactly where we would like to be across the whole of Wales, but we are improving the position."[32]

O ganlyniad, roedd tystion yn cytuno'n fras, mewn egwyddor, ei bod yn bosibl i Ddatganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant sicrhau mwy o dryloywder i gyllidebu llywodraeth leol. Er enghraifft, dywedodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen y byddai adroddiadau cyllidebu ar gyfer plant ar lefel llywodraeth leol, a fyddai'n hwyluso cymariaethau rhwng awdurdodau lleol yn galluogi trethdalwyr lleol i asesu gwerth am arian.[33]

Yn yr un modd, dywedodd yr Athro David Reynolds y byddai Datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant a fyddai'n nodi manylion cyllidebau llywodraeth leol yn hynod o werthfawr:

> "The whole issue of where you live also has enormous salience. So, all-Wales figures are fine, as that gets you some way. It is better to have all-Wales figures for children than not, but you would need also to look within Wales. As an example, if you are in Ceredigion, you are in a very

[30] CLILC. Tystiolaeth Ysgrifenedig, p.3.
[31] RNID Cymru, Tystiolaeth Ysgrifenedig, p.1.
[32] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.6.
[33] Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen, Ymchwiliad i Gyllidebu ar gyfer Plant: Ymateb gan Torfaen, p.2.

high spending education authority. However, it is a different experience in other authorities. If a child happens to be going to a small rural primary school—to take the usual controversial issue—he or she will be consuming many more thousands of pounds of educational resources, rightly or wrongly, than if he or she went to a 400-pupil school in a city."[34]

Hwyluso cyfranogiad y cyhoedd

"Young disabled people across Wales will look at this draft budget and wonder what will this mean for us."[35]

*- **Lee** o Abertawe, tystiolaeth ysgrifenedig gan Plant Anabl yn Cyfri)*

Roedd y tystion o'r farn hefyd ei bod yn bosibl i ddatganiadau Cyllidebu priodol ar gyfer Plant alluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu'n fwy effeithiol mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol y llywodraeth. Er enghraifft, er mwyn i bobl ifanc tebyg iddi hi gyfranogi'n helaethach mewn trafodaethau ynghylch penderfyniadau cyllidebol dywedodd Nicollette Shercliff, o'r mudiad Plant Anabl yn Cyfri y byddent am gael manylion clir o'r gwariant ond eu bod hefyd am gael deall. [36]

Roedd cytundeb cyffredinol ymhlith tystion eraill y byddai ymdrech ychwanegol i alluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi mewn pennu cyllidebau a dyrannu adnoddau yn arwydd o lywodraethu da. Pan ofynnwyd iddi a ddylai plant a phobl ifanc gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, er enghraifft:

"It's definitely their business…if you are going to give young people rights, they will also want to take responsibility."[37]

Cytunwn â'r farn hon, a chefnogwn y syniad ei bod yn bosibl i ymgysylltiad pobl yr effeithir arnynt gan benderfyniadau cyllidebol, yn cynnwys plant a phobl ifanc, sicrhau bod y penderfyniadau yn fwy effeithiol a theg. Cafwyd cefnogaeth eang gan dystion hefyd i'r farn hon, gyda dim ond CLlLC yn herio a oedd angen i blant a phobl ifanc chwarae mwy o ran yn y broses o bennu cyllidebau.[38]

Awgrymodd sawl tyst ei bod yn bosibl i Ddatganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant osgoi codi disgwyliadau plant a phobl ifanc yn afrealistig a'u hatal rhag cael eu dadrithio gan wleidyddiaeth pan nad oedd eu disgwyliadau'n cael eu gwireddu. Yn ychwanegol at gael y wybodaeth berthnasol i wneud cyfraniad

[34] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.5.
[35] Plant Anabl yn Cyfri, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[36] Achub y Plant, papur briffio p.2.
[37] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09. p.11.
[38] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.14.

doeth ac er mwyn i blant a phobl ifanc gyfranogi mewn penderfyniadau cyllidebol effeithiol, nododd tystion hefyd:

- mae angen i oed a chefndir y plentyn neu'r person ifanc gael eu hystyried er mwyn iddynt gyfranogi'n effeithiol;
- mae'n bwysig fod cyfranogiad plant a phobl ifanc gydag anableddau yn cael ei hwyluso.

Llywio'r gwaith o ddatblygu polisi'r Llywodraeth

> *"Any remotely successful business anywhere in the world understands exactly where every single penny that it gets goes and the return that it earns."*[39]
> - ***Angela Burns AC***

Un o fanteision allweddol Cyllidebu ar gyfer Plant, fel y cytunwyd gan yr holl dystion, oedd ei bod yn bosibl iddynt lywio'r gwaith o ddatblygu polisi'r llywodraeth yn y dyfodol. Dywedodd elusen Achub y Plant Sweden:

> "[The] ultimate aim of analysing government budgeting from a child rights perspective is to identify where changes are needed."[40]

Yn wir, roedd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau o blaid hyn fel un o swyddogaeth allweddol Cyllidebu ar gyfer Plant, a dywedodd bod y Llywodraeth, o ganlyniad i waith cychwynnol Llywodraeth Cymru ar Gyllidebu ar gyfer Plant, eisoes yn adolygu ei pholisïau mewn rhai meysydd, megis plant anabl. [41]

Gwella blaengynllunio a chyfathrebu rhwng llywodraethau

Gwnaeth llawer o'r tystion sylw am y diffyg tryloywder mewn cyllidebau llywodraeth leol a chenedlaethol, a bod hyn yn rhwystr i gyfathrebu rhwng Adrannau Llywodraeth Leol a Llywodraeth Genedlaethol o ran y canlyniadau cyllid a fwriadwyd. Teimlai'r mwyafrif o dystion yn gryf mai ychydig o dystiolaeth oedd ar gael o ran cynllunio polisi a dyrannu cyllidebau cydgysylltiedig rhwng gwahanol adrannau llywodraeth neu rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol.

Dywedodd Achub y Plant, er enghraifft, nad oedd arweinwyr polisi o fewn Llywodraeth Cymru yn ymwybodol, a dweud y gwir, o sut y caiff pethau eu dyrannu, ac o ran eu gwaith hwy ar gyllidebu ar gyfer plant:

---

[39] Ibid., p.13.
[40] Achub y Plant Sweden, First introduction to Working for Child Rights from a budget perspective, p.64.
[41] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.03.09, p.5.

> "There was no obvious place to go to find out what is being spent on children."[42]

Yn yr un modd, ar lefel genedlaethol, dywedodd Plant Anabl yn Cyfri:

> "We could run through many different examples of where there have been announcements of funding without prior discussion of the mechanisms for putting that funding through."[43]

Ymhellach, awgrymodd rhai tystion ei bod yn ymddangos weithiau fel pe bai gwahanol linellau gwariant gan Lywodraeth Cymru wedi'u bwriadu i arwain at ganlyniadau tebyg, gan greu biwrocratiaeth ddiangen wrth wneud cais am y ddau fath o gyllid. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, er enghraifft, fod dwy raglen sy'n ymddangos fel pe disgwylir iddynt sicrhau canlyniadau tebyg:

> "Stronger Families and Strengthening Families, have been developed by different directorates within the Assembly Government, in relative isolation with little communication with local government - as a result the opportunities to bid for these two separate funding streams has caused confusion and concern to those in frontline services responsible for delivery."[44]

Ymhellach, oherwydd bod ffrydiau arian Llywodraeth Cymru'n cael eu cyhoeddi weithiau heb gyfathrebu digonol ymlaen llaw gyda llywodraeth leol, nodwyd pryder:

> "Initiatives seem to appear from time to time with ridiculous turn around periods resulting potentially in ill thought out submissions."[45]

Yn yr un modd, dywedodd awdurdod lleol Conwy:

> "Too many grants are given to us late in the year and must be spent by March"[46]

ac nad oedd y brys i wario arian cyn diwedd y flwyddyn ariannol o gymorth o ran blaengynllunio strategol.

Dywedodd rhai tystion ei bod yn bosibl i'r diffyg blaengynllunio hwn hefyd effeithio ar asiantaethau a oedd yn gweithio ar gontract i awdurdodau lleol, ac yn hyn o beth nododd y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant:

> "Funding is often allocated at the last minute with inadequate thought to forward planning. Local authorities publish tender notices at very short notice, often less than two months before current project funding

[42] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.5.
[43] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 3.3.09., p.9.
[44] CLILC, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.4
[45] John Gallanders, Prif Swyddog, Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, a Chadeirydd Partneriaeth Pobl Ifanc Wredsam, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[46] Awdurdod Lleol Conwy, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.

ends. This can often have huge adverse affects on the third sector who are unable to undertake accurate forward planning."[47]

Hefyd, roedd rhai tystion o'r farn nad oedd yn ymddangos bod ffrydiau arian Llywodraeth Cymru yn cymryd i ystyriaeth ganlyniadau a oedd wedi'u nodi fel blaenoriaethau lleol. Er enghraifft, dywedodd Blaenau Gwent:

> "Children and young people services would benefit from a more coordinated strategic approach."[48]

Clywsom dystiolaeth gadarnhaol ar lefel leol, fod Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc yn dechrau hwyluso dull gwario cydgysylltiedig ar blant a phobl ifanc, ond ei bod yn bosibl gwella dulliau cyfathrebu rhwng adrannau llywodraeth leol o hyd. Dywedodd y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant:

> "In general, departments within local authorities are very protective about their allocations."[49]

I'r un perwyl, dywedodd y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau:

> "In Wales, schools still operate in a context of smoke and mirrors where additional funding to a school for a specific purpose may be undermined by a reduction in funding elsewhere in the budget formula."[50]

Dywedodd nifer o dystion, yn cynnwys Plant Anabl yn Cyfri, ei bod yn ymddangos fel petai defnydd cynyddol Llywodraeth Cymru o 'brosiectau peilot' yn rhwystr i flaengynllunio hirdymor. Yn wir, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "the use of non-recurring funding streams often causes more problems than solutions."[51]

Dadleuodd CLlLC yn gadarn hefyd fod gormodedd o grantiau penodol, yn arbennig grantiau addysg penodol, yn rhwystr difrifol i allu awdurdodau lleol i gynllunio ymlaen llaw yn effeithiol. Ategwyd y pryder hwn yn eu tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar 11 Chwefror 2009.

Er bod ymdrechion Llywodraeth Cymru i gyflwyno datganiadau cyllidebol tair blynedd yn ymgais glodwiw i gynorthwyo gwaith blaengynllunio, roedd rhai tystion yn cytuno mai mynegol yn unig oedd blynyddoedd 2 a 3 o hyd gan barhau i greu ansicrwydd. Cyfeiriodd un tyst at arian y Loteri Fawr fel enghraifft dda o ariannu tair blynedd. Dywedodd Homestart Cymru:

---

[47] Y Gymdeithas Gwarchod Plant Genedlaethol, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[48] Blaenau Gwent, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[49] Y Gymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant, Tystiolaeth ysgrifenedig p.1.
[50] Y Gymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau, Tystiolaeth ysgrifenedig e, p.3
[51] Comisiynydd Plant Cymru, ymateb ysgrifenedig ar ran Comisiynydd Plant Cymru, p.2.

> "[We] would like to see a move to three year rolling programmes agreed with full consultation in all areas of Wales. Avoiding slippage and spending budgets by the end of March. This encourages spending money simply because of a deadline, rather then efficient use of funds."[52]

Cynyddu'r defnydd o ddadansoddiadau cost a budd [53]

Agwedd allweddol arall ar gyllidebu ar gyfer plant yw edrych yn ôl ar pa ganlyniadau sydd wedi'u cyflawni at gyfer plant o ganlyniad i gyllidebu gan lywodraethau,[54] gan alluogi i ddadansoddiadau cost a budd mwy cywir i gael eu gwneud.

Roedd cytundeb cyffredinol rhwng y rhai a roddodd dystiolaeth lafar a'r rhai a roddodd dystiolaeth ysgrifenedig mai ychydig o enghreifftiau o ddadansoddi cost a budd o wariant ar blant a phobl ifanc sy'n bodoli ar hyn o bryd.

Er enghraifft, dywedodd Achub y Plant fod y dadansoddiadau hyn yn newydd iawn o ran gwasanaethau plant.[55]

Roedd y rhai a ymatebodd i'r alwad am dystiolaeth yn cytuno bron yn unfrydol mai ychydig iawn o dystiolaeth sydd ar gael yn genedlaethol neu gan awdurdodau lleol fod dadansoddi cost a budd yn digwydd fel hyn.

Cytunodd y rhai a ymatebodd y byddent am i ddadansoddiadau cost a budd gael eu gwneud fel mater o drefn ac y byddai hyn yn helpu i sicrhau bod effaith y penderfyniadau polisi yn fwy tryloyw. Awgrymwyd hefyd y byddai dadansoddi cost a budd yn cefnogi dull gweithredu mwy cyson.

Rhybuddiodd Partneriaeth Fframwaith Wrecsam y gall dadansoddiadau cost a budd fod yn gymhleth iawn a bod angen sicrhau bod y data a ddefnyddir mewn dadansoddiadau o'r fath yn gadarn ac o werth. Ni ddylai'r dasg o gasglu'r data fod yn faich llethol. Fodd bynnag, cafwyd enghreifftiau unigol o ddadansoddiadau cost a budd gan Bartneriaeth Fframwaith Wrecsam a Chomisiynydd Plant Cymru.

---

[52] Homestart, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.

[53] Ein dealltwriaeth o'r term 'dadansoddiad cost a budd', mewn cysylltiad â gwariant y sector cyhoeddus, yw bod dadansoddiad o'r fath yn dynodi'n systematig ganlyniadau polisi neu wariant penodol, wedyn gellir prisio'r budd hwn yn erbyn ei gost (yn gymdeithasol ac ariannol). Yna gall dadansoddiad o'r fath gael ei ddefnyddio fel offeryn gwneud penderfyniadau, gyda'r sawl sy'n gwneud penderfyniad wedyn yn gallu ystyried costau gweithredu – a pheidio â gweithredu – polisi neu wariant cyllidebol penodol, yn y dyfodol.

[54] Achub y Plant Sweden, First Introduction to Working for Child Rights from a budget perspective, p. 60.

[55] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.11.

HERIAU YMARFEROL O RAN CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT

> *"There is a traditional view that it is all too complicated and bureaucratic, and so people wonder why we want to know about it."*[56]
> - ***Anne Crowley**, Achub y Plant*

Nododd nifer o dystion anawsterau ymarferol o ran gwneud dadansoddiadau mewn cyllidebu ar gyfer plant. Yn ei dystiolaeth i'r Pwyllgor, cadarnhaodd yr Athro David Reynolds ddatganiad y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau mai Cymru yw'r unig ran o'r DU sydd wedi ceisio cynnal ymarfer cyllidebu ar gyfer plant o ran cyllidebau cenedlaethol, gan ddweud:

> "no-one else in the UK is doing anything like this. They are not doing it because it is just seen as too hard."[57]

Dadansoddi Gwariant 'Uniongyrchol' ar Blant a Phobl Ifanc

Yn ei thystiolaeth i'r Pwyllgor, fodd bynnag, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, fod dadansoddi data ar wariant uniongyrchol ar blant, ar lefel genedlaethol – er enghraifft mewn meysydd fel addysg a'r gwasanaethau cymdeithasol – yn gymharol rwydd, er ei fod yn cael ei gymhlethu rywfaint gan natur 'heb ei neilltuo' gwariant awdurdodau lleol.

Esboniodd tystiolaeth ysgrifenedig Llywodraeth Cymru fod llinellau gwariant yn y gyllideb (Budget Expenditure Lines)[58] a oedd wedi'u hanelu'n uniongyrchol at blant a phobl ifanc (0- 17 oed) yn cael eu hystyried i fod o fudd i blant 100 y cant. Felly, caiff yr holl linellau gwariant yn y gyllideb eu dyrannu i blant.[59] O ganlyniad mae'n bosibl i Lywodraeth Cymru roi union werthoedd ar ei gwariant ar blant a phobl ifanc mewn meysydd penodol.

Yn wir, cytuna CLlLC bod monitro a dadansoddi gwariant uniongyrchol ar blant a phobl ifanc yn dasg resymol. I awdurdodau lleol, mae hyn yn cynnwys cyllidebau ysgolion, cyllidebau cymorth addysg, cyllidebau ar blant ym maes gwasanaethau cymdeithasol, cyllidebau ieuenctid a chyllidebau cynhwysiant pobl ifanc.

---

[56] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.5.
[57] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.4.
[58] Mae Llinell Gwariant yn y Gyllideb yn nodi swm gwariant Llywodraeth Cymru a neilltuwyd i wireddu gweithgaredd penodol.

Ar hyn o bryd, yn ei datganiadau cyllideb, mae gan Lywodraeth Cymru 'Brif Grwpiau Gwariant,' gwahanol, cyffredinol fel y grŵp Cyfiawdner Cymdeithasol a Llywodraeth Leol, neu'r grŵp Economi a Thrafnidiaeth.

Mae'r grwpiau cyffredinol gwariant cyllidebol hyn yn cynnwys rhaglenni gwariant mwy diffiniedig – er enghraifft o fewn y grŵp gwariant ar yr Economi a Thrafnidiaeth, mae rhaglenni fel 'Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd' a'r rhaglen 'Gwella Integreiddio a Darparu Trafnidiaeth Leol' .

Mae'r rhaglenni gwariant hyn eu hunain yn cynnwys Llinellau Gwariant yn y Gyllideb unigol sy'n diffinio'r swm o arian sydd gan Lywodraeth Cymru i'w wario ar feysydd neu weithgareddau penodol o fewn y rhaglenni hyn. Er enghraifft, o fewn y rhaglen 'Cynnal y Rhwydwaith Cefnffyrdd', mae llinellau gwariant a ddyrannwyd ar gyfer 'Cynnal Arferol' ac ar gyfer 'Prynu Cerbydau a Chyfarpar.'

[59] Llywodraeth Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig, p3.

Dadansoddi Gwariant 'Anuniongyrchol' ar Blant a Phobl Ifanc

> *"One could argue that a good employment programme would put money in the hands of parents, which would help children more than spending on something that directly goes to children. This is not a simple analysis."*[60]
>
> - ***Debbie Budlender**, yr Asiantaeth Gymunedol ar gyfer Ymchwiliadau Cymdeithasol*

Awgrymodd nifer o dystion, yn cynnwys CLlLC bod dynodi gwariant 'anuniongyrchol' ar blant a phobl ifanc, fel gwariant ar drafnidiaeth, tai neu ddatblygu economaidd, yn llawer anoddach na dynodi gwariant uniongyrchol. Dywedwyd bod y mwyafrif o wariant awdurdodau lleol yn cael effaith ar blant a phobl ifanc, ond bod monitro gwariant anuniongyrchol ar blant yn gymhleth, gan ofyn, er enghraifft, am ddynodi cyfran ac effaith ar blant y gwariant ar lwybrau bysiau â chymhorthdal, neu welliannau i dai cyngor.

Roedd papur ysgrifenedig Llywodraeth Cymru'n nodi'r ddwy fethodoleg a ddefnyddiwyd ganddi i ddadansoddi gwariant anuniongyrchol ar blant a phobl ifanc:

> "2. **Anuniongyrchol**. Mae'r llinellau gwariant hynny yn y gyllideb sydd wedi'u hanelu at y boblogaeth yn gyffredinol, yn defnyddio dadansoddiad o'r boblogaeth i ganfod faint o'r llinell gwariant yn y gyllideb benodol sy'n cael eu priodoli i blant.
>
> 3. **Defnyddio data ystadegol**. Y llinellau gwariant yn y gyllideb hynny y mae'r data ar gael ar eu cyfer (gyda dadansoddiad o oed). Cytunwyd ar y penderfyniad ar bwy sy'n cael budd o bob llinell wariant gyda meysydd busnes adrannol."

Fodd bynnag, pan graffwyd ar y methodolegau hyn, roeddem yn pryderu nad oedd amheuaeth bod defnyddio dadansoddiad o'r boblogaeth i ganfod faint o linell wariant benodol oedd i'w phriodoli i blant a phobl ifanc yn cynhyrchu canlyniadau amheus. Gan nodi amcangyfrif fod canran o 21 y cant o boblogaeth Cymru o dan 18 oed, dywedodd Helen Mary Jones, Cadeirydd y Pwyllgor:

> "To explore another example of where you are using 21.6 per cent as the basic percentage, such as the renewal of roads and bridges and bus revenue support lines, it could be argued that children and young people use a lot more public transport than the average base of the population, and therefore, arguably, they would get less from the expenditure that benefits primarily private vehicles, such as cars. I

[60] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.14.

> would be interested to explore the extent to which the 21.6 per cent basic figure needs more unpacking if we are to get an accurate picture."[61]

Cydnabu'r Gweinidog ein pryderon ni a dywedodd:

> "It would be more difficult with regard to transport, which is a very good example. We know that children, young people and elderly people make the most use of our buses. We should also be able to tell how many young disabled people and carers use buses, because they are entitled to a free bus pass. This is where we need to unpick some of the information that we have, because we have not got into that kind of detail, but we could."[62]

Cytunodd y tystion, hefyd, y gall fod yn anodd iawn gwneud ymarferiad cyllidebu ar gyfer plant heb ddata addas. Er enghraifft, dywedodd yr Athro David Reynolds fod data hanesyddol – a gasglwyd cyn penderfynu cynnal Dadansoddiad Cyllidebu ar gyfer Plant – yn aml yn amhriodol i'r diben, oherwydd ni fydd yn darparu digon o fanylion. Gwnaeth y sylw:

> "If you try to get data about historical spend from systems that were never designed to do that, you risk all kinds of problems."[63]

Cytunodd CLlLC â'r sylw hwn, a dweud:

> "The difficulty is trying to look backwards to see what has happened before now. Data have not previously been collected in this way, and so it would be difficult to try to use other data to fit neatly into the boxes that we are currently using."[64]

Dywedodd yr Athro Reynolds bod llawer o ddata hanesyddol yn canolbwyntio ar y categori gwariant yn hytrach na chategori'r sawl sy'n ei dderbyn. Hefyd, er bod 'dangosydd oedran' ar rywfaint o ddata o'r fath i hwyluso'r gwaith o wneud dadansoddiadau perthnasol i oedran, ni fyddai'n arferiad i gasglu hwn ar gyfer pob ffurf o wariant. O ganlyniad, argymhellodd yr Athro Reynolds:

> "What you need to do is to interrogate your data systems with the new requirements that you have to collect data, for example, about children, and then use the data that comes out"[65]

Yn wir, yn y "Full Introduction to Working for Child Rights from a budget perspective", noda Achub y Plant yn Sweden:

[61] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09. p.7.
[62] Ibid., p.8.
[63] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.5.
[64] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.13.
[65] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.5.

> "Many child rights budget studies have advocated for better budget data, and for such data to be disaggregated to show what is being targeted to children."[66]

O ganlyniad, dywedodd Helen Mary Jones, Cadeirydd y Pwyllgor:

> "One thing that we could ask the Government to ensure is that those initial data are being collected about who uses public services. We need to make sure that we are finding out how old service users are, and perhaps not just in the traditional areas of health and social services, but also in sampling who uses public transport, for example, to make sure that the data are age-sensitive."[67]

Casglu Data: Canlyniadau

Credwn nad yw papur ysgrifenedig Llywodraeth Cymru, na'i herthygl ar 10 Mawrth 2009 ar yr ystadegau, yn nodi'n glir y canlyniadau polisi a fyddai'n ddymunol, na goblygiadau nac effeithiau ei gwariant ar blant a phobl ifanc, o gymharu ag oedolion.

Fodd bynnag, pwysleisiodd nifer o dystion, yn cynnwys yr Athro Reynolds, Debbie Budlender a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, ei bod yn hanfodol edrych ar y gwariant a gynlluniwyd neu'r gwir wariant o linellau gwariant yng nghyllideb y llywodraeth, yn ogystal â'r canlyniadau a ddisgwylid o'r fath wariant cyllidebol. Er enghraifft, dywedodd yr Athro Reynolds:

> "Countries that have tried allocating expenditure by client group, like children or older people, across budget headings, have generally found that to collect data on the inputs without data on the outcomes is a serious error of judgment. Expenditure on its own has no meaning unless it is tagged to what that expenditure produces."[68]

Awgrymwyd ganddynt, hefyd, bod dadansoddi canlyniadau perthynol o'r fath yn bosibl ei gyflawni, gyda Debbie Budlender yn nodi:

> "South Africa's budget books do not provide numbers only in respect of financial amounts. They also provide "output" estimates that serve as indicators of physical delivery… For the 2008/09 budget a list of indicators was developed by national government and each province was expected to submit the full list as an annex in their budget submissions. "[69]

---

[66] Achub y Plant Sweden, Full Introduction to Working for Child Rights from a budget perspective, p.55
[67] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.11.
[68] Ibid., p.4.
[69] Debbie Budelnder a Paula Proudlock, "*Analysis of the 2008/09 Budgets of the 9 provincial departments of Social Development: Are the budgets adequate to implement the Children's Act*?" p.26.

Yn wir, ym marn CLlLC, nid yw asesu'r adnoddau a 'fewnbynnwyd' yn cymharu â gwerthuso'r effaith a gawsant, mewn modd trefnus ac amserol. Eu barn oedd bod nodi dangosyddion perfformiad a thargedau allweddol yn hanfodol i fonitro effeithiolrwydd ac effeithlonrwydd gwariant. Roedd CLlLC hefyd yn bryderus y byddai'n anodd asesu canlyniadau gwariant cyllidebol ar hyn o bryd i, gan nad oedd y rhain ar gael yn strategol. Gwnaethant y sylw:

> "We would like to see a switch of emphasis onto outcomes, and to establish an agreed set of outcomes between the Assembly Government and authorities. We could then agree on a way of measuring whether authorities have achieved those outcomes."[70]

Yn yr un modd, dywedodd Blaenau Gwent:

> "any system should focus upon "outcomes" that are achieved for children and young people." [71]

Rhybuddiodd CLlLC, fodd bynnag, fod dadansoddi effeithiolrwydd gwariant y llywodraeth yn erbyn canlyniadau dymunol wedi bod yn anodd yn y gorffennol. Awgrymwyd ganddynt, er enghraifft, ei bod yn rhy fuan o hyd i ddweud a yw cyllid RAISE yn cael effaith sylweddol mewn ardaloedd difreintiedig.[72]

Dywedodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam efallai bod y gwaith o ddadansoddi canlyniadau yn cael ei gymhlethu gan wariant nad yw'n uniongyrchol o fewn rheolaeth y llywodraeth, gan nodi:

> "One of the key issues that is outside the remit of WAG control but cannot, and should not be overlooked is the contribution being made to finances through the Third Sector - there are many millions of pounds generated from charitable trusts, self financing, donations, etc."[73]

Casglu Data: is-grwpiau

Awgrymodd nifer o dystion, yn cynnwys yr Athro Reynolds, na fyddai nodi darpariaeth gwasanaethau ar gyfer 'plant' fel grŵp o'r un rhyw yn ddigon manwl i hybu dealltwriaeth lawn, ac efallai bod angen ystyried gwariant ar blant o wahanol oedrannau, anghenion ac amgylchiadau. Nododd bod y defnydd o wasanaethau iechyd yn wahanol iawn i blant ifanc (cyn oed ysgol) o'i gymharu â phlant yn eu harddegau, er enghraifft. .

Yn yr un modd awgrymodd Plant Anabl yn Cyfri y dylid casglu data ar wariant ar wasanaethau i blant a phobl ifanc anabl, a dywedodd Debbie Budlender:

[70] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 11.2.09., p.21. (Yn ystod eu cyfarfod â'r Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, ar 17.3.09 dywedodd CLILCl eu bod am i'w tystiolaeth a gyflwynwyd i'w cyfarfod â'r Pwyllgor Cyllid gael ei ystyried fel rhan o ymchwiliad y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc).
[71] Blaenau Gwent, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[72] CLlLC, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[73] Y Gymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.4.

> "Budgets are all about prioritisation, so it is often useful to disaggregate what is happening to boys as opposed to girls, kids from wealthy or less wealthy families, kids from single-parent families, or other kinds of family, and kids from different localities. Budgets are about distribution, and not just distribution between kids and adults, but distribution between different groupings of kids."[74]

Oherwydd y modd y caiff cyllidebau llywodraeth eu llunio, cytunodd Achub y Plant ei bod yn arbennig o anodd nodi gwariant ar blant a phobl ifanc hawdd eu niweidio, a phlant mewn tlodi. Roeddynt wedi comisiynu dadansoddiad o gyllidebau trwy Gymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban i asesu'r gwariant oedd ar blant tlawd ar lefel genedlaethol (y DU a gwledydd eraill), gan wneud cymariaethau rhwng gwledydd yn y DU lle bo'n briodol ac astudio newidiadau ers 1997. Mae'r astudiaeth yn canolbwyntio ar sectorau allweddol ym maes plant, yn cynnwys y blynyddoedd cynnar, addysg, nawdd cymdeithasol a gofal cymdeithasol. Nid oedd eu hadroddiad terfynol wedi'i gyhoeddi pan gyhoeddwyd ein hadroddiad ni, ond yn eu tystiolaeth lafar, dywedodd Achub y Plant:

> "The report has a lot more information about England and shows that pro-poor spending in the early years there has been extremely successful. There has been a huge rise in spending on pre-school Sure Start childcare, and there is information to suggest that that is getting to the poorest people. We cannot say that in Wales, because we do not know."[75]

Roedd y Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru) ar fin cael ei gyhoeddi pan glywsom ein tystiolaeth lafar a chyfeiriodd nifer o dystion at y Mesur hwn a'i ddarpariaethau arfaethedig i fynd i'r afael â thlodi plant. Er enghraifft, yn ei ymateb ysgrifenedig i'r Alwad am Dystiolaeth, dywedodd Comisiynydd Plant Cymru:

> "The proposed Children and Families Measure (Wales) introduced by the Welsh Assembly Government places a duty on public authorities to make and demonstrate their contribution towards eradicating child poverty. If they are to do this, one would assume that evidence of child budgeting would be a necessity so that we can examine more robustly how budget allocations reflect political priority."[76]

Ein gobaith yw y bydd y Mesur yn arwain Awdurdodau Lleol i gasglu data ar ganlyniadau, galluogi datganiadau cyllidebu ar gyfer plant i gael eu llunio, fel ffordd o ddangos eu hymrwymiad i ddileu tlodi plant. O'r herwydd, credwn fod angen i waith o'r fath fynd y tu hwnt i edrych yn unig ar wariant ar blant

[74] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.02.09. p.15.
[75] Ibid., p.6.
[76] Comisiynydd Plant Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig ar ran Comisiynydd Plant Cymru, p.5.

a phobl ifanc yn gyffredinol. Dywedodd Debbie Budlender fod perygl o edrych ar blant a phobl ifanc fel grŵp:

> "It could be that we spend 50 per cent of the budget on children, but that we spend it on the wrong programme, or that we spend it on programmes that mostly benefit the wealthiest 20 per cent of children in the country."[77]

Yn olaf, awgrymodd llawer o dystion y byddai'n werth dadansoddi data ar lefel genedlaethol, ac yn rhanbarthol rhwng gwahanol awdurdodau lleol, a dywedodd yr Athro Reynolds ei bod yn bosibl bod amrywiadau rhwng ariannu addysg rhwng gwahanol ardaloedd awdurdodau lleol, er enghraifft. Yn ychwanegol, dywedodd yr Athro Reynolds ei bod yn bosibl i egwyddorion sylfaenol Cyllidebu ar gyfer Plant hefyd gael eu defnyddio ar gyfer grwpiau eraill o bobl, fel pobl hŷn.

Casglu data: Costau

Nododd nifer o dystion ei bod yn bosibl i waith casglu a dadansoddi data ar ganlyniadau, a defnyddwyr, gwariant llywodraeth ynddo'i hun olygu gwariant ariannol. O ganlyniad, dywedodd Blaenau Gwent:

> "[We] would express caution in implementing any system that took resources away from frontline services delivery."[78]

Yn yr un modd, dywedodd CLlLC:

> "[We] would not want to see something that created any additional bureaucratic or administrative burden without there being an obvious benefit to it."[79]

Cydnabyddwn y pryderon hyn, a chytunwn y byddai angen i'r gwaith o gasglu a dadansoddi data, er mwyn hwyluso gwaith Cyllidebu ar gyfer Plant, gael ei gynllunio a'i gydlynu'n effeithiol. Credwn y byddai hyn yn galluogi'r costau sy'n gysylltiedig â chasglu a dadansoddi data o'r fath i gael eu gostwng, ac elwa ar ei fanteision, fel tryloywder, atebolrwydd, cynllunio o ran y llywodraeth a chyfranogiad gan y cyhoedd. Caiff ein hystyriaeth o'r camau ymarferol i wireddu arbedion o'r fath eu nodi yn y bennod nesaf.

Fodd bynnag, wrth gydnabod yr angen i gasglu a dadansoddi data yn effeithiol, roedd sylwadau Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Wrecsam yn peri pryder i ni:

> "[Local authorities are] asked to provide information to one Welsh Assembly Government Department which we know is already held by another. Such information is generally required in a slightly different

[77] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.2.09., p.14.
[78] Blaenau Gwent, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[79] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.8.

> format meaning that it must be reworked before sending off. Similarly, with monitoring information that would be needed to conduct cost-benefit analyses, much of the monitoring information authorities are asked for is of doubtful value and it is suspected is not really used by the Assembly Government."[80]

Credwn y dylai gwariant ar gasglu a dadansoddi data gael ei ddefnyddio'n effeithiol, heb ddyblygu gwaith. O ganlyniad, credwn fod angen i unrhyw ofyniad gan Lywodraeth Cymru ar awdurdodau lleol i gasglu data ychwanegol ystyried, a chydgysylltu'n strategol, bob cais arferol am ddata oddi wrth wahanol adrannau Llywodraeth Cymru.

Roedd y sylwadau canlynol gan Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru hefyd yn peri pryder i ni:

> "An issue about consistency across local authorities in the way that they currently present their budgets… We know, for example, that some authorities might include school transport in their education budgets, whereas others might not."[81]

Eto, credwn fod angen i wariant a fuddsoddwyd mewn casglu a chyflwyno data gael ei ddefnyddio'n effeithiol, gan y gallai anghysonderau yn y mathau o ddata a gyflwynir rwystro'r data hwnnw rhag cael ei ddadansoddi'n effeithiol trwy Gymru gyfan. O ganlyniad, credwn fod angen canllawiau gyda phob gofyniad a bennir gan Lywodraeth Cymru ar awdurdodau lleol am gasglu data ychwanegol i amlinellu'n benodol y math o ddata sydd ei angen.

Sylweddolwn ei bod yn bosibl bod casglu data ar sail oed yn fater sensitif mewn rhai meysydd gwariant y llywodraeth: mae'n bosibl i ddangosyddion oedran ar ddata tai, er enghraifft, gael eu beirniadu am hyrwyddo gwahaniaethu ar sail oedran.

[80] Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Wrecsam, Tystiolaeth ysgrifenedig. p.3.
[81] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.13.

CAMAU YMARFEROL O RAN CYLLIDEBU EFFEITHIOL AR GYFER PLANT

Yr angen am fframwaith i'r broses gyllidebu ar gyfer plant

Mewn tystiolaeth i'r Pwyllgor, amlinellodd Debbie Budlender ddull pum cam o Gyllidebu ar gyfer Plant, gan ddweud:

> "First, you will start with the problem, which could be in a particular sector and could relate to children. I was in China last month, and the biggest problem facing Chinese women is migrant labour. So, if the problem is migrant labour, the second step is to identify what are the Government's programmes and policies that address women migrant labourers, and to assess whether those policies and programmes are addressing the problems that you have identified that these women have, including, for example, no access to healthcare because they are registered in the rural areas but are now living in the urban areas. So, the question is whether the programmes and policies address that issue. If not, you must change them. If they do address that issue, you must assess how much money is given to implement those programmes and policies. Only in the third step do you go on to the budget; you must have good programmes and policies in place first. The third step is how much money is allocated. If the allocation comes at the beginning of the budget year, it is a promise that it might not happen. So, the fourth step is asking whether the money was used for what it was allocated for and whether it reached the people who really needed it, or whether it went to the wrong people or was floated away in corruption. The final step is to do with outcomes and whether it made a difference to the problems that you identified in the first place. Sometimes, we devise policies that we think will solve a problem, but they do not."[82]

Credwn fod y system pum cam hon yn ymddangos yn ddull synhwyrol o Gyllidebu ar gyfer Plant, ac rydym wedi'i chrynhoi fel:

A. Nodi Problem
B. Nodi Canlyniadau Dymunol
C. Nodi faint o arian a ddyrannwyd gan y llywodraeth tuag at gyflawni'r canlyniad hwnnw
D. Nodi a ddefnyddiwyd yr arian mewn gwirionedd
E. Asesu effaith gwariant o'r fath ar y canlyniadau dymunol yn dilyn y gwariant

[82] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.15.

Er mai Debbie Budlender oedd yr unig dyst a roddodd grynodeb yn benodol ar y broses Cyllidebu ar gyfer Plant yn y modd hwn, cynigiodd tystion eraill sylwadau oedd yn ymwneud â chamau penodol yn ystod y broses hon. Felly rydym wedi ystyried eu tystiolaeth mewn perthynas â'r camau penodol hyn isod.

Nodi problemau, a nodi canlyniadau dymunol

I gychwyn, felly, pa broblemau sy'n wynebu plant a phobl ifanc yng Nghymru a pha ganlyniadau y mae llywodraeth yng Nghymru am eu sicrhau, drwy wariant, i ddatrys y problemau hyn?

Mae dogfen strategol Llywodraeth Cymru, *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004)* yn nodi ei saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc, yn seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Y canlyniadau a fyddai'n ddymunol i blant a phobl ifanc yw:

"· cael dechrau da mewn bywyd;
• cael amrywiaeth gynhwysfawr o gyfleoedd addysg a dysg;
• mwynhau'r iechyd gorau posib, yn rhydd o gamdriniaeth, erledigaeth ac ecsploetiaeth;
• gallu cael mynediad at weithgareddau chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliannol;
• cael eu trin â pharch, cael pobl i wrando arnynt, gan gydnabod eu hil a'u hunaniaeth ddiwylliannol;
• byw mewn cartref a chymuned ddiogel sy'n cefnogi lles corfforol ac emosiynol;
• nad ydynt o dan anfantais oherwydd tlodi."[83]

Yn ogystal â "dwyn ynghyd ystadegau ac ymchwil o ystod o wahanol ffynonellau ac adrodd ar amrywiaeth o ddangosyddion sy'n ymwneud â lles plant"[84] mae Monitor Lles Plant Llywodraeth Cymru hefyd wedi'i seilio ar themâu y saith nod craidd hyn. Dywedodd Achub y Plant:

> "Some sort of budget analysis, undertaken by Government, which followed that structure would be useful."[85]

Yn wir, dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y byddai strwythuro gwaith Llywodraeth Cymru ar Gyllidebu ar gyfer Plant mewn dull tebyg i'r Monitor Lles Plant yn awgrym defnyddiol gan y pwyllgor, fel offeryn i ni ei ddefnyddio yn sail ar gyfer dadansoddi.[86]

---

[83] Llywodraeth Cymru, *Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau (2004)* http://www.assemblywales.org/N0000000000000000000000000016990.pdf, p.1.
[84] Gwefan Llywodraeth Cymru, Monitor Lles Plant a Phobl Ifanc, http://wales.gov.uk/about/aboutresearch/social/ocsropage/2008monitor?lang=en, p.1.
[85] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.12.
[86] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.7.

Rydym yn ymwybodol, fodd bynnag, fod gan Lywodraeth Cymru hefyd nifer o ddogfennau strategol y tu hwnt i'r saith nod craidd hyn, sy'n nodi'n fwy manwl y canlyniadau dymunol ar gyfer plant a phobl ifanc. Er enghraifft, o ran ei seithfed nod craidd, nad yw plant a phobl ifanc o dan anfantais oherwydd tlodi, deallwn y bydd Llywodraeth Cymru'n datblygu strategaeth ar gyfer dileu tlodi plant yng Nghymru. O gofio'r nifer o strategaethau o'r fath sy'n bod, credwn y dylai Llywodraeth Cymru gynhyrchu un ddogfen gyffredinol sy'n cysylltu pob amcan strategol, ar gyfer plant a phobl ifanc, â'r gwariant a fuddsoddir i wireddu'r amcanion hyn.

Argymhelliad 1:

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi un strategaeth yn nodi'r canlyniadau a ddisgwylir o ganlyniad i'w gwariant ar blant a phobl ifanc, gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r strategaeth hon.

Rhagwelwn y bydd hyn yn:

- cysylltu amcanion â gwariant mewn perthynas â phlant a phobl ifanc.
- seiliedig ar ei saith nod craidd ar gyfer plant a phobl ifanc.
- ymgorffori amcanion a benderfynwyd yn flaenorol ar gyfer gwariant mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, fel y rhai a fydd yn cael eu hamlinellu yn ei strategaeth ar gyfer dileu tlodi plant yng Nghymru, fel sy'n ofynnol gan y Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru).
- nodi proses strategol, y bydd Adrannau Llywodraeth Cymru'n ymgynghori â'i gilydd, ac â llywodraeth leol, i flaengynllunio ynghylch goblygiadau cyllidebol pob cyhoeddiad am bolisi newydd a fwriedir i effeithio ar blant a phobl ifanc. Disgwyliwn y gallai hwn adeiladu ar eu Hofferynnau Integreiddio Polisi presennol.[87]
- cynnwys cynllun gweithredu a fydd yn nodi dyddiadau terfyn a chyfrifoldebau priodol ar gyfer cyflawni camau gwahanol.

Fodd bynnag, er bod "Plant a Phobl Ifanc: Gweithredu'r Hawliau" (2004) yn nodi saith amcan craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc, mynegodd cynrychiolwyr o lywodraeth leol bryderon wrthym nad oedd problemau a ganfuwyd yn lleol a chanlyniadau dymunol wedi'u hystyried yn ddigonol gan Lywodraeth Cymru. Er enghraifft, dywedodd Blaenau Gwent:

[87] Mae rhagor o wybodaeth am Offeryn Integreiddio Polisi Llywodraeth Cymru ar gael yn http://wales.gov.uk/docrepos/40382/dhss/socialservices/consultations/Preface_to_Consultation_Sum1.pdf;jsessionid=BRJ0JhGTfnzjk4GWvhkNpQDytj0GVthyTJY23HJjjSJ1GC9fpGhH!-582746490?lang=en

> "Budget allocation is often determined nationally and based on national strategic priorities. These may be different priorities than those which were identified in the Local Authority's Children's Plan."[88]

Yn yr un modd gofynnodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam:

> "Why is it a requirement for each Local Authority area to produce a single Children and Young Peoples Plan to reflect all aspects and to develop an action plan to meet the identified needs, when in complete isolation the Welsh Assembly Government encourages Community First Partnerships to develop projects which have no fit in the strategic thinking of an area?"[89]

Ymhellach, mewn tystiolaeth a gyflwynwyd i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru, soniodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am y drafodaeth ganlynol:

> "[A] discussion between local government and the Assembly Government about what we identify as the key outcomes we want to achieve and then by agreeing on a set of indicators that show that those outcomes have been achieved."[90]

Cytunwn â'r safbwyntiau hyn, a chredwn y byddai'n fuddiol i lywodraeth leol a llywodraeth ganolog yng Nghymru gytuno ar restr o'r fath o'r prif ganlyniadau a fyddai'n ddymunol.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru ar y cyd ag Awdurdodau Lleol yn nodi'r canlyniadau a fwriedir o wariant cyllidebol llywodraeth leol ar blant a phobl ifanc.

Disgwyliwn y bydd y rhain:

- yn seiliedig ar saith nod craidd Llywodraeth Cymru ar gyfer plant a phobl ifanc.
- yn hyblyg o ran amgylchiadau unigol awdurdodau lleol, ond yn sicrhau digon o gysondeb er mwyn hwyluso cymhariaeth rhwng awdurdodau lleol.
- ymgorffori targedau cyfeiriedig perfformiad a gytunwyd eisoes, yn cynnwys targedau a benderfynwyd yn lleol, fel y rhai a nodwyd gan y Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

[88] Blaenau Gwent, Tystiolaeth ysgrifenedig
[89] Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.
[90] Cofnod y Trafodion, Y Pwyllgor Cyllid, 11.2.09., p.27.

Nodi faint o arian a ddyrennir gan y llywodraeth tuag at sicrhau canlyniadau

Croesawn y gwaith a wnaed gan Lywodraeth Cymru i nodi'r gyfran o'i gwariant yn y gyllideb a gynlluniwyd ar gyfer plant a phobl ifanc. Fodd bynnag, fel y cydnabu Llywodraeth Cymru ei hun, oherwydd diffyg data ystadegol mewn perthynas ag oedran defnyddwyr rhai o'i llinellau gwariant yn y gyllideb, weithiau roedd yn rhaid iddi amcangyfrif y gwariant a gynlluniwyd ar blant a phobl ifanc, yn seiliedig yn unig ar ganrannau poblogaeth.

Credwn ei bod yn hanfodol, os bydd Datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant yn cael eu cynhyrchu, fod data ar gael yn y dyfodol i ddarparu amcangyfrifon rhesymol o'r gyfran o wariant llinellau cyllidebol penodol ar blant a phobl ifanc.

Fel y nodwyd yn y bennod flaenorol, rydym yn gwybod hefyd y dylai'r data hwn gynnwys gwybodaeth am wariant ar 'is-grwpiau' o blant a phobl ifanc, yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc o fewn grwpiau oedran gwahanol
- plant a phobl ifanc anabl
- plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi.
- plant a phobl ifanc gwrywaidd a benywaidd

Nodwn bryderon hefyd a fynegwyd yn benodol gan gynrychiolwyr o lywodraeth leol, sef y posibilrwydd y bydd costau'n gysylltiedig â chasglu data. Eu barn yw ei bod yn bosibl y gallai hynny danseilio gwasanaethau rheng flaen. Cawsom ein hargyhoeddi, fodd bynnag, fod Cyllidebu ar gyfer Plant yn offeryn gwerthfawr i fuddsoddi ynddo, sy'n hwyluso datblygiad polisi, tryloywder, atebolrwydd, cyfranogiad y cyhoedd a'r posibilrwydd o hwyluso gwell cyfathrebu rhwng llywodraethau. Rydym yn argyhoeddedig hefyd y byddai'n llawer mwy rhesymol sefydlu'r math o ddata a geisiwn oddi wrth wahanol asiantaethau, chaniatáu iddynt ddatblygu systemau i gasglu data o'r fath yn y dyfodol, yn hytrach na cheisio dadansoddi data a gasglwyd mewn fformat sy'n anaddas i'r diben hwn.

Ar gyfer rhai mathau o ddata, credwn hefyd y byddai astudiaethau samplu yn ddull cymharol rad o weld pa ddefnydd a wnaiff plant a phobl ifanc o wasanaethau penodol. Yn y cyd-destun hwn, nodwn yr awgrym diddorol gan yr Athro Reynolds ei bod yn bosibl i blant a phobl ifanc eu hunain weithredu fel casglwyr data ar y defnydd o wasanaethau cyhoeddus, pan ddywedodd:

> "You can now use young people as data collectors in ways that people tried previously using hard-copy diaries. However, you could look across Wales at the extent to which young people are consuming resources or what their needs are if they are not consuming those resources. You could use young people as informants and get them to do 'a day in the life of' or 'a week in the life of'. So, for example, the young person would get up in a house and that house would have a street light outside, and that is an expenditure on that young person indirectly. They would travel on a road: indirect expenditure. They would go into a school: direct expenditure. That evening they might go out to a youth club or something: direct expenditure. You can actually try to use the natural tendency of young people to want to talk about themselves and mobile technologies of various kinds to begin to see what the experiences and needs are. You can then get a sense about what money you would allocate in your budget."[91]

Awgrymodd yr Athro Reynolds hefyd ei bod yn bosibl casglu data o'r math yma drwy dechnolegau ffonau symudol, yn hytrach na thechnolegau cyfrifiadurol, sydd o bosibl yn llai hygyrch ar gyfer grwpiau o blant a phobl ifanc o gefndiroedd cymdeithasol ac economaidd difreintiedig. Dywedodd yr Athro Reynolds:

> "Mobile technologies reach, for better or worse, across income groups and social class groups. It must be 95 per cent; maybe it is close to 100 per cent of children who would have a mobile. It would be possible to get samples of children on their mobile texting to a format every hour about what that young person was doing, where they were, what they feel about the experience, that kind of thing. That might be useful. The danger again, though, is that although one would not start it wanting this to happen, what one might get is unrepresentative samples of young persons bothering to use their mobile to tell us what they are doing, what their needs are, what their interaction with the council was and what it was like, what their day at school was like. The danger is of volunteer samples."[92]

Nodwn hefyd y cesglir rhai mathau o ddata eisoes gan asiantaethau statudol gwahanol yng Nghymru, ond nad yw'r data yn cael eu casglu'n gyson i'r un graddau. Er enghraifft, dywedodd Plant Anabl yn Cyfri:

> "It would make getting information on disabled facilities grants spending much easier if there were a clear requirement to keep the data for under-18s and over-18s separate: it would be quite a simple thing to do. Some local authorities do that, but others have been not doing it in

[91] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.5.
[92] Ibid., p.13.

> such a straightforward way, which then makes it a big exercise to separate the information out. If the Welsh Assembly Government were to make it much clearer that we want data kept in that manner, that would be helpful."[93]

Pan drafodwyd yr opsiwn o'i gwneud yn ofynnol i asiantaethau statudol gasglu data ar wahân ar wariant ar oedolion a phlant, sylwadau'r Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau oedd:

> "… not convinced, at the moment, of the need to require them to produce that data. We need to get a voluntary agreement first, and I am sure that that will come forth."[94]

Mewn cysylltiad â mynd i'r afael â thlodi plant nododd y Gweinidog hefyd bod awdurdodau lleol wedi:

> "Signed a voluntary agreement with Brian Gibbons last Thursday. Moving forward to a duty for them to demonstrate how they are tackling child poverty is a huge step forward in legislation. To do that, they will have to have statistical analysis, as we will."[95]

Credwn hefyd ei bod yn hanfodol bwysig fod data yn cael ei gasglu'n gywir y tro cyntaf, i osgoi gorfodi awdurdodau lleol i adolygu eu systemau casglu data yn y dyfodol. Yn dilyn gwaith peilot gyda nifer penodol o awdurdodau lleol, rydym wedi dewis argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar ddarparu data manwl addas ar gyfer cynhyrchu datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant.

Gan nodi tystiolaeth Partneriaeth Plant a Phobl Ifanc Wrecsam, y gall ceisiadau casglu data gan Lywodraeth Cymru ddod ar-hap ac yn anstrategol, rydym yn awyddus fod canllawiau o'r fath hefyd yn cynnwys yr holl ofynion ar gyfer casglu data gan awdurdodau lleol mewn perthynas â phlant a phobl ifanc, er mwyn osgoi gosod baich ychwanegol ar awdurdodau lleol.

Nodi a yw gwariant a gynlluniwyd ar blant a phobl ifanc wedi ei wario mewn gwirionedd ar blant a phobl ifanc

Cytunodd y mwyafrif o dystion ei bod yn well edrych ar y gwir wariant ar blant a phobl ifanc, nag edrych ar y gwariant a gynlluniwyd, oherwydd y byddai'n fwy cywir. Dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

[93] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 3.3.09., p.11.
[94] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.8.
[95] Ibid., p.9.

> "estimations of budgets have to be checked, and not only through the use of formulae, but also data"[96]

Hefyd, dywedodd Achub y Plant, Sweden yn 'A First Introduction to Working for Child Rights from a budget perspective':

> "sometimes there may be large and persistent discrepancies between what a government plans to spend on children – and what it actually does spend."[97]

Nodwyd y mater hwn yn ein hadroddiad ym mis Mai 2009 "Craffu ar ddatblygiadau mewn perthynas â darpariaeth gwasanaethau eirioli ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru." Cyn yr ymchwiliad byr hwn, roedd Llywodraeth Cymru eisoes wedi ymrwymo i sefydlu grant un-tro, i alluogi i gonsortia o Bartneriaethau Plant a Phobl Ifanc roi trefniadau comisiynu eiriolaeth ar y cyd ar waith. Fodd bynnag, dywedodd Llywodraeth Cymru wrthym yn ystod ein hymchwiliad:

> "Unfortunately, it [the grant] came from the social services budget, and it was last year. The timescale for that has run out, and neither we nor our partners were in a position to get to the point at which we could use that money."[98]

Pan fo sefydliadau anllywodraethol wedi gwneud gwaith ar Gyllidebu ar gyfer Plant, cydnabyddwn eu bod wedi gosod cynseiliau ar gyfer edrych yn unig ar wariant a gynlluniwyd. Nodir bod Debbie Budlender ei hun wedi mabwysiadu'r dull hwn mewn astudiaeth achos cyllidebu ar gyfer plant a gyflwynwyd i'r Pwyllgor,[99] ar y sail nad oedd hi'n rhagweld y byddai'r gwariant a gynlluniwyd ac a ystyriwyd yn y gwaith yn wahanol iawn i'r gwir wariant.

Serch hynny, rydym yn ddiolchgar i'r Gweinidog am ei brwdfrydedd wrth wirio amcangyfrifon cyllidebau yn erbyn data gwirioneddol, gyda'r nod o ganfod unrhyw ddiffygion cyson.

Asesiad o effaith gwariant cyllidebol, yn erbyn canlyniadau dymunol

Fel y nodwyd eisoes, roedd llawer o'n tystion o'r farn bod angen asesu effaith gwariant yn ôl y canlyniadau dymunol yn wreiddiol.

Wrth gydnabod hyn, nodwn hefyd y gall gymryd llawer iawn o amser i benderfynu ar ganlyniadau ffurfiau gwariant penodol, ac roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n bryderus y dylai polisïau ar gyfer effeithio ar dlodi

[96] Ibid., p.10.
[97] Achub y Plant Sweden, A First Introduction to Working for Child Rights from a budget perspective
[98] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.20.
[99] Debbie Budlender a Paula Proudlock, *Analysis of the 2008/09 Budgets of the 9 provincial departments of Social Development: Are the budgets adequate to implement the Children's Act?*

plant, er enghraifft, gael eu hystyried yn yr hirdymor. Dywedodd Christine Chapman AC:

> "You do not see the results for many years and, often, when people set budgets, they do not always see into the future"[100]

Nodwn hefyd bryderon a fynegwyd gan rai tystion, yn arbennig mewn llywodraeth leol, ynghylch costau posibl monitro effaith gwariant cyllidebol yn erbyn canlyniadau. Dywedodd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "There is also a need to ensure that any analysis adds value, that there is a benefit to it, and that it is not undertaken just for the sake of it. As Members will know, in the past, we have expressed concerns about the administrative and bureaucratic burden placed on local authorities. In the current financial circumstances…when things are tight, we need to make sure that we use public funding as efficiently and effectively as possible and that value is added to the quality and scope of front-line service delivery."[101]

Fodd bynnag, dywedodd y Gymdeithas hefyd, mewn tystiolaeth:

> "The challenge for local government is to convince you, as Assembly Members, and the Assembly Government, that it can deliver and that it can be trusted,"[102]

fel cam tuag at sicrhau llai o archwilio a thuag at gyfundrefn archwilio fwy cydgysylltiedig,[103] a llai o grantiau penodol. Rydym yn argymell y dylai llywodraeth leol ystyried Cyllidebu ar gyfer Plant, ar sail data cadarn, fel offeryn i'w ddefnyddio i ddangos y defnyddir cyllidebau sy'n effeithio ar blant a phobl ifanc mewn ffordd effeithiol.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol ar gasglu data gan bartneriaid lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, i alluogi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc i gael eu cynhyrchu, a'i bod yn nodi amserlen ar gyfer hyn.

Disgwyliwn y byddai canllawiau o'r fath yn:

- cael eu profi yn y lle cyntaf trwy waith peilot mewn awdurdodau lleol,

[100] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.12.
[101] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.5.
[102] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Cyllid, 11.2.09., p.25.
[103] CLILC. Tystiolaeth ysgrifenedig, p.4.

- galluogi mathau cyson o ddata i gael ei gasglu, mewn ffordd gyson ac unffurf, gan wahanol awdurdodau lleol ar ddefnyddwyr gwasanaethau cyhoeddus, mewn ffordd sensitif briodol.
- galluogi data cyson i gael ei gasglu, mewn ffordd gyson, gan wahanol awdurdodau lleol, ar ganlyniadau eu gwariant cyllidebol ar blant a phobl ifanc.
- hwyluso cydberthynas data rhwng gwahanol awdurdodau lleol i gael ei datblygu.
- annog arferion casglu data sy'n bodoli eisoes i gael eu defnyddio pan fo'n bosibl, a galluogi pob math o waith casglu data sy'n gysylltiedig â phlant a phobl ifanc i gael eu cydlynu, fel sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru oddi wrth awdurdodau lleol. Bydd hyn yn lleihau'r baich ar awdurdodau lleol. Efallai y byddai'n bosibl hwyluso hyn drwy Fyrddau Gwasanaethau Lleol.
- hwyluso gwariant ar blant a phobl ifanc a chanlyniadau'r gwariant i gael eu dadansoddi, gan gynnwys:
    - plant a phobl ifanc mewn grwpiau oedran gwahanol
    - plant a phobl ifanc anabl
    - plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi
    - plant a phobl ifanc gwrywaidd a benywaidd
- galluogi ffurfiau priodol lleol o gasglu data i gael eu defnyddio wrth gynnal y cysondeb sy'n angenrheidiol ar gyfer gwneud cymariaethau, gan gynnwys defnyddio samplo.

Cynhyrchu Datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant

Trwy'r broses a amlinellwyd uchod, credwn ei bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru, ac awdurdodau lleol, gynhyrchu Datganiadau Cyllidebu effeithiol ar gyfer Plant, dros yr hirdymor. Ystyriwn hwn fel yr Argymhelliad allweddol yn yr adroddiad hwn.

Ar sail ein profiad blaenorol o ystyried cyllidebau blynyddol Llywodraeth Cymru, buasem hefyd yn dadlau y dylai'r datganiadau hyn gynnwys hanes manwl, sy'n rhoi sylwadau ar y dystiolaeth ystadegol sydd ynddynt.

Argymhelliad 4 (Argymhelliad Allweddol)

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc.

Disgwyliwn iddynt:

- gael eu cyhoeddi bob tair blynedd ariannol o leiaf, ac mewn cydweithrediad â phrosesau cyllideb presennol.
- nodi'r canlyniadau a ragwelwyd ar gyfer gwariant Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc, wedi'u strwythuro yn debyg i Fonitor Lles Plant Llywodraeth Cymru.
- cynnwys hanes manwl gyda'r data ystadegol yn y datganiad.
- nodi canrannau a gynlluniwyd a gwir ganrannau pob un o linellau gwariant cyllideb Llywodraeth Cymru. A pha ganrannau a gafodd effaith uniongyrchol neu anuniongyrchol, yn enwedig, mewn meysydd fel trafnidiaeth, cynllunio a thai, dros y tair blynedd ariannol flaenorol, ar blant a phobl ifanc yn gyffredinol, ac ar grwpiau o blant a phobl ifanc, yn cynnwys:
    - plant a phobl ifanc o fewn grwpiau oedran gwahanol
    - plant a phobl ifanc anabl
    - plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi
    - plant a phobl ifanc gwrywaidd a benywaidd
- nodi gwir ganlyniadau pob llinell wariant yn y gyllideb, yn erbyn y canlyniadau disgwyliedig a nodwyd.
- nodi manylion y canran a ragwelwyd o bob llinell gwariant cyllideb Llywodraeth Cymru a ddisgwylir i effeithio ar blant a phobl ifanc, ac isadrannau perthnasol yn ymwneud â phlant a phobl ifanc dros y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd nesaf.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar gynhyrchu Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc yr awdurdodau eu hunain, a'i bod yn nodi amserlen ar gyfer eu cynhyrchu.

Rhagwelwn y bydd y canllawiau hyn yn nodi y dylai datganiadau o'r fath:

- gael eu cyhoeddi ym mhob (trydedd) blwyddyn ariannol.
- nodi manylion y canlyniadau a gynlluniwyd ar gyfer eu gwariant ar blant a phobl ifanc, o bosibl wedi'u strwythuro yn debyg i Fonitor Lles Plant Llywodraeth Cymru.
- cynnwys hanes manwl gyda'r data ystadegol yn y datganiad.
- nodi'r canrannau a gynlluniwyd a gwir ganrannau Gwariant Cyllidebol Awdurdodau Lleol, a oedd wedi effeithio ar blant a phobl ifanc yn

gyffredinol dros y tair blynedd ariannol flaenorol, ac ar grwpiau o blant a phobl ifanc, yn cynnwys:

- plant a phobl ifanc mewn grwpiau oedran gwahanol
- plant a phobl ifanc anabl
- plant a phobl ifanc sydd mewn tlodi.
- plant a phobl ifanc gwrywaidd a benywaidd

- nodi gwir ganlyniadau gwariant Cyllidebol Awdurdodau Lleol yn erbyn canlyniadau disgwyliedig a nodwyd.
- nodi manylion y canran a ragwelwyd o Wariant Cyllidebol Awdurdodau Lleol a ddisgwylir i effeithio ar blant a phobl ifanc, a grwpiau perthnasol o blant a phobl ifanc dros y flwyddyn ariannol bresennol a'r ddwy flynedd nesaf.
- galluogi cymariaethau i gael eu gwneud rhwng awdurdodau lleol.

Monitro Datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant

Nodir hefyd fod un tyst, sef Achub y Plant wedi gofyn:

> "Whether there might be a role for you as the Children and Young People Committee to monitor the proportion of expenditure on children."[104]

Er y bydd gennym ddiddordeb brwd mewn ystyried Datganiadau Cyllideb Plant, ar lefel llywodraeth leol a llywodraeth genedlaethol, credwn fod cyrff eraill a fyddai'n fwy addas i wneud hyn.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell fod yr Archwilydd Cyffredinol yn monitro cyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc, gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

[104] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.12.

CYLLIDEBU CYFRANOGOL

Dywedodd nifer o dystion ei bod yn bosibl y gallai datganiadau cyllideb clir a thryloyw ar gyfer plant gynorthwyo plant a phobl ifanc i ddangos mwy o ddiddordeb mewn penderfyniadau cyllidebol. Fel y nodwyd eisoes, roedd llawer o dystion hefyd o'r farn y dylid cael mwy o gyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau cyllidebol. Er enghraifft, dywedodd Plant Anabl yn Cyfri:

> "A little more upfront discussion about finances and resources would be helpful."[105]

Nodwn hefyd sylwadau Chwarae Cymru a chytunwn â'u barn ynghyn â chyfranogi gan blant a phobl ifanc:

> "in decision-making is meaningful and does not necessarily curtail their time and freedom to play." [106]

Cyllidebu Cyfranogol ar Lefel Genedlaethol

> *"young people who have meetings with Ministers feel that there is no discussion about money that they can understand and relate to."*[107]
> *- Nicollette Shercliff, Disabled Children Matter*

Mynegodd llawer o dystion eu cefnogaeth dros roi'r cyfle i blant a phobl ifanc gael cyfranogi o ddifrif mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol ar lefel genedlaethol, gyda chefnogaeth datganiadau cyllideb tryloyw ar gyfer plant. Ar lefel genedlaethol, er enghraifft, dywedodd Plant Anabl yn Cyfri, fod llawer o'r trafodaethau â phobl ifanc yn tueddu i fod am y problemau, ac ychydig o drafod sydd ynglŷn â'r arian" [108] gan ei gwneud yn anodd i bobl ifanc sôn am y materion sydd bwysicaf iddynt hwy.

Roedd Plant Anabl yn Cyfri yn cytuno â sylw Angela Burns AC:

> "If Ministers say, 'Yes, we would like to try to help,' you would almost rather them say, 'But we only have £x million, so we can only do this much."[109]

Yn sgil y dystiolaeth hon, roeddem yn falch fod Llywodraeth Cymru wedi dangos eu cefnogaeth i gynyddu cyfleoedd i bobl ifanc gyfranogi mewn prosesau gwneud penderfyniadau cyllidebol.

Dywedodd un swyddog o Lywodraeth Cymru wrthym, er enghraifft, y byddent yn rhoi cyngor i'r Gweinidog ar y dulliau i'w defnyddio i gynyddu'n raddol

[105] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 3.3.09, p.6.
[106] Chwarae Cymru, Tystiolaeth ysgrifenedig p.3.
[107] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 3.3.09., p.6.
[108] Ibid, p.6.
[109] Ibid, p.7.

ymwneud gan blant a phobl ifanc yn yr holl brosesau cyllidebu, oherwydd ei fod yn rhoi sgiliau iddynt. [110]

Nododd Llywodraeth Cymru hefyd ei bod yn bosibl y byddai cynnwys plant a phobl ifanc mewn gwaith o'r fath yn arwain at benderfyniadau gwell, ac aeth ymlaen i ddweud fod plant a phobl ifanc yn eithaf realistig yn y camau y maent yn eu hawgrymu y dylem eu cymryd."[111]

Rydym yn awyddus i Lywodraeth Cymru barhau i ddatblygu'r gwaith pwysig hwn.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo, hyd eithaf ei gallu, i hwyluso cyfranogiad priodol gan blant a phobl ifanc mewn gwaith gosod cyllidebau a'u monitro.

Wrth wneud yr ymrwymiad hwn, disgwyliwn i Lywodraeth Cymru:

- gynorthwyo plant a phobl ifanc a gaiff eu cynnwys yn y gwaith o bennu cyllidebau gael gwybodaeth gefndir briodol a chynhwysfawr ar brosesau cyllidebau, democratiaeth a llywodraethu.
- sefydlu gweithgor trawsadrannol i ddatblygu cyfleoedd i alluogi plant a phobl ifanc i gyfranogi yn y gwaith o bennu a monitro cyllidebau cenedlaethol.
- datblygu cynllun gweithredu i ymgysylltu â phlant a phobl ifanc mewn perthynas â phennu a monitro cyllidebau.

Cyllidebu Cyfranogol ar lefel lleol

Rhoddodd nifer o'r tystion enghreifftiau o arfer da wrth alluogi i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn penderfyniadau cyllidebol, ar lefelau lleol. Er enghraifft, rhoddodd yr Uned Cyllidebu Cyfranogol[112] ddisgrifiad o'r hyn sy'n digwydd yn Ffrainc, fel rhan o'r prosiect 'The High School (Lycees) Participatory Budget':

> "Every pupil, parents, teachers and employees in each school are invited to debate about the projects they consider as priorities "in order to live and work better at school ". The total amount allocated to this budget is 10 millions Euro."[113]

[110] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc 31.03.09 p.11.
[111] Ibid, p.11.
[112] Prosiect dan adain yr elusen Church Action on Poverty yw'r Uned Cyllidebu Cyfranogol, sydd hefyd yn cael arian gan Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol Llywodraeth y DU i gefnogi ymestyn arferion Cyllidebu Cyfranogol yn Lloegr
[113] Yr Uned Cyllidebu Cyfranogol, Tystiolaeth ysgrifenedig p.3

Rhoddodd yr Uned Cyllidebu Cyfranogol ddisgrifiad hefyd o'r hyn sy'n digwydd mewn un enghraifft yn y Deyrnas Unedig:

> "80 people from across Heywood armed with voting handsets cast the deciding vote on how the council and police should spend £20,000 addressing community safety concerns."[114]

Yn yr un modd rhoddodd Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam yr enghraifft ganlynol:

> "A local example of young people being involved but not with any Welsh Assembly Government funding was a Participatory Budget project in a village called Coepdoeth on the outskirts of Wrexham. A level of funding was secured by the Community Council who held public meetings which young people took part in to arrive at local projects."[115]

Rydym felly'n awyddus iawn bod Llywodraeth Cymru'n rhoi cymorth a chyfarwyddyd i awdurdodau lleol yng Nghymru ar ddefnyddio cyllidebau cyfranogol i greu Datganiadau Cyllidebu ar gyfer Plant. Nodwn hefyd bod y Mesur Arfaethedig Plant a Theuluoedd (Cymru) yn rhoi dyletswydd gyffredinol ar awdurdodau lleol i wneud trefniadau i hybu a hwyluso plant a phobl ifanc i gymryd rhan ym mhenderfyniadau awdurdod lleol sy'n effeithio arnynt hwy. Mae'n ei gwneud yn ofynnol hefyd i awdurdodau lleol gyhoeddi a diweddaru gwybodaeth am eu trefniadau cyfranogi. Credwn y dylai canllawiau a gysylltir â'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) gynnwys cyfeiriad at alluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu â chyllidebu cyfranogol, a monitro cyllidebau.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymell y dylai canllawiau statudol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, sy'n deillio o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), gynnwys gwybodaeth ynglŷn â galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu er mwyn cymryd rhan mewn penderfyniadau am gyllidebau.

Disgwyliwn i'r canllawiau:

- gael eu profi yn y lle cyntaf mewn gwaith peilot mewn awdurdodau lleol,
- bod yn seiliedig ar arferion da sy'n bodoli eisoes yn y DU er mwyn hwyluso cyllidebu cyfranogol;

[114] Yr Uned Cyllidebu Cyfranogol, Taflen wybodaeth p.4.
[115] Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.3.

Rôl Cynghorau Ysgolion mewn cyllidebu cyfranogol

Nodwn hefyd ei bod yn bosibl i gynghorau ysgolion fod yn gyfrwng gwerthfawr i blant a phobl ifanc ymgysylltu â phenderfyniadau cyllidebol. Dywedodd CLlLC:

> "Research undertaken by Welsh Assembly Government and Estyn reports, have shown that local authorities in Wales are running particularly effective School Councils which allow children and young people to become involved in decision making about their school. There are also strong links between the School Councils and Governing Bodies which set budgets for schools."[116]

A dywedodd y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau:

> "if you talk to the children and young people on school councils who have been asked to budget, as some of them have, you will know that they have to decide between priorities."[117]

Deallwn, fodd bynnag, nad yw'n ofynnol ar hyn o bryd i gynnwys cynghorau ysgolion wrth wneud penderfyniadau cyllidebol, na disgwyl chwaith i fforymau cyllidebu ar gyfer ysgolion ystyried gwybodaeth oddi wrth gynghorau ysgolion, ac mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru'n cydnabod fod y sefyllfa'n amrywio o awdurdod i awdurdod."[118]

Credwn ei bod yn bosibl i'r arfer da hwn, sef galluogi cynghorau ysgolion i gymryd rhan mewn penderfyniadau cyllidebol a monitro'r penderfyniadau hynny, gael ei gysoni trwy'r awdurdodau lleol yng Nghymru.

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau addysg lleol ar gyfranogiad cynghorau ysgolion mewn penderfyniadau am gyllidebau a monitro cyllidebau, a'i bod yn nodi'r amserlen ar gyfer y cam hwn.

Disgwyliwn i ganllawiau o'r fath roi cyngor ar faterion ymarferol, fel pryd yn y broses gyllidebu y dylai cynghorau ysgolion gael eu cynnwys.

Dealltwriaeth Gyllidebol

[116] CLILC, Tystiolaeth ysgrifenedig. p.1.
[117] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.11.
[118] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.7.

Nododd llawer o'n tystion bwysigrwydd datblygu a hybu dealltwriaeth gyllidebol, trwy addysg, er mwyn hwyluso plant a phobl ifanc i gyfranogi yn y gwaith o bennu cyllidebau. Dywedodd Achub y Plant, er enghraifft:

> "We need to have a larger programme to make the budget process and budgets more transparent to civil society generally. There needs to be education on budget literacy in our schools, right through the school system."[119]

Yn yr un modd, awgrymodd yr Athro David Reynolds:

> "we would have to incorporate some provision of knowledge within things such as PSE to help"[120]

A chydnabu Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru:

> "Perhaps there is role for personal, social and health education here to encourage children and young people to understand the issues that local authorities and governments face in delivering services and developing policy."[121]

Felly, rydym yn falch fod y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau wedi rhoi gwybod i ni y bydd y cwricwlwm addysg presennol yn cysylltu â gwaith Cyllidebu ar gyfer Plant yn fwy eang, gan ddweud:

> "We have financial literacy firmly embedded in the curriculum, they will also expect much more engagement. So, the financial inclusion strategy and the financial education unit that we are setting up will all pave the way to a much greater interest in children's budgeting."[122]

Nodir y cyflwynwyd cwricwlwm newydd ym mis Medi 2009 gyda chydrannau addysg dealltwriaeth ariannol o fewn y cwricwla Addysg Bersonol a Chymdeithasol (ABCh) ar gyfer yr oedran 7 i 19 a Mathemateg ar gyfer yr oedran 7 i 16.

Argymhelliad 10
Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn parhau i hwyluso mwy o ffocws ar ddealltwriaeth gyllidebol o fewn y cwricwlwm addysg, gan wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r broses gwneud penderfyniadau cyllidebol.

[119] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 10.2.09., p.5.
[120] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 27.1.09., p.14.
[121] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 17.3.09., p.14.
[122] Cofnod y Trafodion, y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc, 31.3.09., p.14.

Yn dilyn ymgynghoriad, nodir hefyd bod y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol wedi cyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategaeth Cynhwysiant Ariannol i Gymru sy'n cynnwys y cam canlynol:

- Sefydlu'r Uned Addysg Ariannol Gymreig i ganfod enghreifftiau o arfer gorau ac i helpu athrawon ac ysgolion i ddarparu addysg ariannol yn y cwricwlwm. (Cam 4.3)

I'w cynorthwyo i gyflawni'r cam hwn, credwn ei bod yn bosibl i Lywodraeth Cymru ddarparu deunyddiau ar y we a fyddai'n ddefnyddiol fel adnodd i athrawon sy'n cyflwyno sgiliau dealltwriaeth gyllidebol plant i'w dosbarthiadau. Yn dilyn argymhelliad y Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion yn Ail Gynulliad Cenedlaethol Cymru, nodir bod Llywodraeth Cymru wedi cytuno i ddatblygu gwefan yn esbonio'r prosesau ariannu ysgolion trwy wefan ariannu ysgolion. [123]

Er ein bod yn deall fod gwefan ar ariannu ysgolion wedi'i sefydlu gan Lywodraeth Cymru o ganlyniad i'r argymhelliad hwn, a'i bod ar gael yn http://new.wales.gov.uk/topics/educationandskills/learningproviders/schools/schoolfunding/?lang=en, ni chredwn y byddai, yn ei ffurf bresennol, yn hawdd i blant a phobl ifanc ei defnyddio. Rydym yn bryderus ei bod, ar hyn o bryd, yn cynnwys, er enghraifft, llawer iawn o jargon ariannol a llywodraethol.

Cytunwn hefyd â sylwadau Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ei bod yn bosibl i'r wefan fod yn ddefnyddiol o ran:

> "Explanation of the funding of other services for children and young people, in line with the publication and implementation of the Children and Young People's Plans."[124]

Argymhelliad 11

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn darparu gwell gwybodaeth a chanllawiau ar-lein ar ariannu ysgolion. Dylid ei hysgrifennu mewn modd sy'n ddealladwy i blant a phobl ifanc, gyda chyn lleied â phosibl o jargon ariannol a llywodraethol, fel adnodd ar gyfer dysgu am wneud penderfyniadau am gyllidebau.

Disgwyliwn y bydd y wybodaeth hon ar-lein yn:

- cael ei monitro o ran hygyrchedd a pha mor ddefnyddiol ydyw, a byddai'n gofyn am farn y plant a'r bobl ifanc sy'n ei defnyddio.
- cael ei chynnal gan ymarferion rhyngweithiol er mwyn cynnwys plant a phobl ifanc yn y prosesau amrywiol.

[123] Cynulliad Cenedlaethol Cymru, Pwyllgor ar Ariannu Ysgolion Adroddiad ar drefniadau Ariannu Ysgolion Cymru s , Mehefin 2006
[124] CLILC, Tystiolaeth ysgrifenedig, p.1.

Atodiad 1

Argymhelliad 1:

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi un strategaeth yn nodi'r canlyniadau a ddisgwylir o ganlyniad i'w gwariant ar blant a phobl ifanc, gyda chynllun gweithredu ar gyfer gwireddu'r strategaeth hon.

Argymhelliad 2

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru ar y cyd ag Awdurdodau Lleol yn nodi'r canlyniadau a fwriedir o wariant cyllidebol llywodraeth leol ar blant a phobl ifanc.

Argymhelliad 3

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol ar gasglu data gan bartneriaid lleol, yn cynnwys awdurdodau lleol a byrddau iechyd lleol, i alluogi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc i gael eu cynhyrchu, a'i bod yn nodi amserlen ar gyfer hyn**.**

Argymhelliad 4 (Argymhelliad Allweddol)
Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc.

Argymhelliad 5

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n darparu canllawiau statudol i awdurdodau lleol ar gynhyrchu Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc yr awdurdodau eu hunain, a'i bod yn nodi amserlen ar gyfer eu cynhyrchu.

Argymhelliad 6

Rydym yn argymell fod yr Archwilydd Cyffredinol yn monitro cyhoeddi Datganiadau Cyllideb Plant a Phobl Ifanc, gan Lywodraeth Cymru ac Awdurdodau Lleol.

Argymhelliad 7

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n ymrwymo, hyd eithaf ei gallu, i hwyluso cyfranogiad priodol gan blant a phobl ifanc mewn gwaith gosod cyllidebau a'u monitro.

Argymhelliad 8

Rydym yn argymell y dylai canllawiau statudol Llywodraeth Cymru i awdurdodau lleol, sy'n deillio o'r Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru), gynnwys gwybodaeth ynglŷn â galluogi plant a phobl ifanc i ymgysylltu er mwyn cymryd rhan mewn penderfyniadau am gyllidebau

Argymhelliad 9

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru'n cyhoeddi canllawiau statudol i awdurdodau addysg lleol ar gyfranogiad cynghorau ysgolion mewn

penderfyniadau am gyllidebau a monitro cyllidebau, a'i bod yn nodi'r amserlen ar gyfer y cam hwn.

Argymhelliad 10

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn parhau i hwyluso mwy o ffocws ar ddealltwriaeth gyllidebol o fewn y cwricwlwm addysg, gan wella dealltwriaeth plant a phobl ifanc o'r broses gwneud penderfyniadau cyllidebol.

Argymhelliad 11

Rydym yn argymell fod Llywodraeth Cymru yn darparu gwell gwybodaeth a chanllawiau ar-lein ar ariannu ysgolion. Dylid ei hysgrifennu mewn modd sy'n ddealladwy i blant a phobl ifanc, gyda chyn lleied â phosibl o jargon ariannol a llywodraethol, fel adnodd ar gyfer dysgu am wneud penderfyniadau am gyllidebau.

Atodiad 2

CYLCH GORCHWYL YR YMCHWILIAD:

Cytunodd y Pwyllgor Plant a Phobl Ifanc ar y cylch gorchwyl canlynol ar gyfer yr ymchwiliad hwn:

1. Archwilio'r trefniadau presennol ar gyfer dyrannu a monitro gwariant cyhoeddus ar gyfer plant a phobl ifanc yng Nghymru yn genedlaethol ac yn lleol.

2. Dynodi gwariant cyffredinol Llywodraeth Cymru ar blant a phobl ifanc.

TREFN GYFLWYNO TYSTIOLAETH

Cafwyd tystiolaeth lafar fel a ganlyn:

27 Ionawr 2009
- Yr Athro David Reynolds, Prifysgol Plymouth

10 Chwefror 2009
- Debbie Budlender, Community Agency for Social Enquiry
- Rhian Croke, Achub y Plant
- Anne Crowley, Achub y Plant

3 Mawrth 2009
- Keith Bowen, Cyswllt Teulu Cymru
- Zoe Richards, Plant Anabl yn Cyfri
- Nicollette Shercliff, Plant Anabl yn Cyfri
-

17 Mawrth 2009
- Dr Chris Llewelyn, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
- Vanessa Phillips, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

31 Mawrth 2009
- Jane Hutt AC, y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
- Piers Bisson, Llywodraeth Cymru
- Suzanne Chisholm, Llywodraeth Cymru
- Ruth Studley, Llywodraeth Cymru

Cafwyd tystiolaeth ysgrifenedig gan:

- Cymdeithas Arweinwyr Ysgolion a Cholegau
- Cymdeithas Athrawon a Darlithwyr
- Cymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Wrecsam

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Blaenau Gwent
- Y Groes Goch Brydeinig
- Gofalu am Ofalwyr
- Sefydliad y Plant
- Community Agency for Social Enquiry
- Gwasanaethau Plant a Theuluoedd, Awdurdod Lleol Conwy
- Home Start
- Cymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant
- Y Gymdeithas Genedlaethol i Blant Byddar - Cymru
- Yr Uned Cyllidebu Cyfranogol
- Chwarae Cymru
- Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar
- Achub y Plant
- Comisiynydd Plant Cymru
- Pwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru
- Cyngor Bwrdeistref Sirol Tor-faen
- Swyddfa Archwilio Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Bwrdd yr Iaith Gymraeg
- Partneriaeth Fframwaith Wrecsam